

CABINET

CYNGOR GWYNEDD

DYDDIAD	Dydd Mawrth, 6ed Tachwedd, 2018
AMSER	1.00 y.h.
LLEOLIAD	Siambwr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH
PWYNT CYSWLLT	Annes Siôn 01286 679490 cabinet@gwynedd.llyw.cymru

AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

Aelodau	
Dyfrig L. Siencyn	Arweinydd
Dafydd Meurig	Dirprwy Arweinydd, Aelod Cabinet Amgylchedd
Craig ab Iago	Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant
Gareth Wyn Griffith	Aelod Cabinet Prifffyrdd a Bwrdeistrefol
Nia Wyn Jeffreys	Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Gorfforaethol
Peredur Jenkins	Aelod Cabinet Cyllid
Dilwyn Morgan	Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc
W. Gareth Roberts	Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant
Gareth Thomas	Aelod Cabinet Addysg
Ioan Thomas	Aelod Cabinet Datblygu'r Economi

RHAGLEN

	Eitem	Cyflwynir gan	Swyddog	Tud.
1	YMDDIHEURIADAU			
2	DATGAN BUDDIANT PERSONOL			
3	MATERION BRYD			
4	MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU			
5	COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR 2 A'R 16 HYDREF 2018			4 - 18
6	AD-DREFNU YSGOLION BANGOR	Cyng Gareth Thomas	Diane Jones	19 - 44
7	RHAGLEN TARGEDU BUDDSODDIAD MEWN ADFYWIO: CANOL DINAS BANGOR	Cyng. Ioan Thomas	Llyr B Jones	45 - 51

Y CABINET DYDD MAWRTH, 2 HYDREF 2018

Yn bresennol-

Y Cynghorwyr: Dyfrig L. Siencyn, Dafydd Meurig, Craig ab Iago, Gareth Wyn Griffith, Nia Wyn Jeffreys, Peredur Jenkins, Dilwyn Morgan, Gareth Thomas a Ioan Thomas

Hefyd yn bresennol-

Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Dewi Morgan (Uwch Reolwr Refeniw a Risg) a Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol).

Eitem 5: Ceryl Davies (Uwch Reolwr Anghenion Dwys)

Eitem 6: Marian Parry Hughes (Pennaeth Adran Plant a Cefnogi Teuluoedd)

1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Cyng. W Gareth Roberts ac Aled Davies (Pennaeth yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYD

Nid oedd unrhyw faterion bryd.

4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu.

5. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS OEDOLION, IECHYD A LLES

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Morwena Edwards

PENDERFYNWYD

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ar y cyfan fod perfformiad yr adran yn

gadarnhaol. Ychwanegwyd fod her yr adran yn un uchelgeisiol a phwysleisiwyd nad oedd modd i'r adran wireddu eu heriau heb gefnogaeth eu partneriaid. Pwysleisiwyd mai beth sydd yn bwysig i'r unigolyn sydd yn gyrru'r gwasanaeth a bellach mae'n brif fesurydd yr adran. Pwysleisiwyd fod hwn yn fesurydd newydd ond nad yw'n hawdd cymharu perfformiad gyda'r blynyddoedd a fu.

Tynnwyd sylw at Wydnwch Cymunedol gan nodi fod pum tîm yn gweithio yn drawsadrannol ac yn draws-sefydliad sydd yn ei gwneud yn haws i bobl barhau i fyw yn annibynnol yn eu cymunedau. Nodwyd mai'r prif waith yw trosglwyddo pobl i'r gymuned yn dilyn cyfnod mewn ysbytai. Ychwanegwyd mai prif broblem i'r maes yw cael pecynnau gofal oherwydd diffyg capasiti mewn cartrefi a recriwtio staff.

Nodwyd fod gwaith yn cael ei wneud yn edrych ar y gweithlu a recriwtio o fewn y maes Gofal. Ychwanegwyd fod darn o waith yn cael ei gomisiynu er mwyn gwella dealltwriaeth yr adran am broblemau recriwtio. Ategwyd fod prosiect gofal cartref wedi bod yn weithredol ym Methesda sydd wedi bod yn gweithio mewn ffordd wahanol.

Tynnwyd sylw at ganlyniadau'r Holiadur Cenedlaethol sydd yn dangos fod perfformiad Gwynedd yn cymharu yn dda yn erbyn perfformiad Cymru. Pwysleisiwyd fod yr holiadur wedi tynnu sylw at yr angen i gefnogi gofalwyr, ac ychwanegwyd fod Strategaeth Gofalwyr Rhanbarthol yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Trafodwyd recriwtio gan nodi ein bod yn trafod y maes yma ers Ionawr ac nad ydym eto i weld wedi medru dod i waelod y mater fel ein bod yn gallu rhoi camau gweithredu ar waith a bod angen ystyried a yw'r mater yma yn derbyn blaenoriaeth digonol. Nodwyd fod gwaith yn cael ei wneud ar y papur a gobeithir y bydd adroddiad yn fuan.
- Nodwyd fod y trefniadau ar gyfer mesur a yw cynlluniau arbedion yn llwyddo neu beidio yn ddibynnol ar yr adolygiad cyllideb yn hytrach na dadansoddiad o werth ariannol y camau unigol sy'n cael eu cymryd ac fe heriwyd a oedd angen trefniadau mwy miniog. Nodwyd y byddai hyn yn derbyn sylw.
- Tynnwyd sylw at y tablau gan nodi fod un yn pwysleisio 'targedau'. Nodwyd nad yw hyn yn cydfynd ag egwyddorion Ffordd Gwynedd gan na ddylem fod yn anelu am dargedau meintiol oni bai fod yna ystyr gwirioneddol allweddol iddynt.
- Trafodwyd Cartref Preswyl Penisarwaun yn cau ar fyr rybudd, holwyd faint o sylw mae'r adran yn ei roi i Gartrefi Preswyl Preifat. Nodwyd mai Arolygaeth Gofal Cymru a fyddai'n cadw golwg ar faterion ariannol ac nid oes gofyn iddynt rannu'r wybodaeth gyda'r Cyngor. Ond ychwanegwyd fod ymweliad wedi ei gynnal wythnos cyn i'r Cartref gau ac nad oedd unrhyw broblemau wedi ei amlygu.

6. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS BLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD

Cyflwynwyd yr eitem gan Cyng. Dilwyn Morgan

PENDERFYNWYD

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod ymarfer a pherfformiad cyffredinol yn y Maes Plant yn ei gyfanrwydd yn gadarn. Nodwyd fod Adroddiad Arolygiad Llawn gan Arolygaeth Gofal Cymru yn cadarnhau perfformiad yr adran. Ategwyd fod yr adroddiad yn nodi fod gan y gwasanaeth gryfderau sylweddol a gweithlu ymrwymedig a chadarn. Ychwanegwyd fod yr arolygiad wedi adnabod pedwar maes i'w ddatblygu ond fod rhain yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau sydd yng Nghynllun y Cyngor.

Tynnwyd sylw at adolygu'r cynllun 'Dechrau i'r Diwedd', gan nodi fod nifer y lleoliadau preswyl wedi lleihau. Pwysleisiwyd er bod niferoedd yn lleihau, nid oedd yr adolygiad wedi cymryd i ystyriaeth y cynnydd mewn costau'r lleoliad. Ategwyd mai dyma yw'r prif reswm dros orwariant yr adran ac ychwanegwyd fod adroddiad penodol ar hyn yn cael ei baratoi gan yr adran, ar y cyd â'r Adran Gyllid, er mwyn egluro'r mater yn fanylach.

Pwysleisiwyd blaenoriaethau'r adran gan nodi eu bod yn cyd-fynd â'r tri chynllun gwella sydd yng Nghynllun y Cyngor. Ategwyd fod gwaith cychwynnol y Strategaeth Cefnogi Teuluoedd Gwynedd wedi dechrau a bod yr adran wedi adnabod beth yw'r galw am gefnogaeth i deuluoedd yn ogystal â mapio pa ddarpariaeth sydd ar gael. Mynegwyd y bydd trafodaeth gychwynnol gyda phartneriaid allweddol wedi digwydd erbyn y Cylch adrodd nesaf am y Strategaeth.

Tynnwyd sylw fod gwaith Cydymdrechu yn erbyn Tlodi bellach wedi trosglwyddo i'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd. Ychwanegwyd oherwydd bod amserlen gyflwyno Credyd Cynhwysol yn y sir wedi llithro y bydd y prosiect yn cadw yn fyw hyd at ddiwedd Mawrth i gefnogi pobl i ymdopi â'r newidiadau.

Nodwyd ei bod yn galonogol fod yr Arolygaeth Gofal Cymru yn disgrifio Panel Rhiant Corfforaethol yn uchelgeisiol ar gyfer y Plant Mewn Gofal. Ychwanegwyd fod gwaith pellach wedi digwydd i geisio adnabod ble mae angen gwella ac adnabod ymarfer da drwy'r grwpiau tasg sydd wedi eu sefydlu. Mynegwyd pryder mai ychydig dros hanner yr aelodau etholedig sydd wedi mynychu'r hyfforddiant 'Rhiantu Corfforaethol', a nodwyd y bydd mwy o sesiynau yn cael eu cynnal er mwyn i aelodau ddeall eu cyfrifoldebau yn y maes.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod yr adran bellach yn edrych ar eu mesurau a'u pwrpas gan fod rhai mesurau bellach wedi eu dileu gan nad ydych yn mesur data sydd yn bwysig i drigolion Gwynedd.
- Trafodwyd cost lleoliadau all sirol gan holi os oes unrhyw beth y gall yr adran wneud i osgoi'r costau. Nodwyd fod niferoedd wedi lleihau gan fod

mwy o gefnogaeth ar gael yn y cartref. Ychwanegwyd fod cynnydd yn y gost oherwydd bod y problemau sydd yn cael eu delio o fewn y lleoliadau yn fwy dwys ac o ganlyniad mae darparwyr yn codi swm uwch. Ychwanegwyd fod hon yn broblem genedlaethol a bod trafodaeth ranbarthol yn cael ei gynnal yn edrych ar y mater.

- Tynnwyd sylw nad yw gorwariant o fewn yr adran yn broblem newydd a codwyd y cwestiwn os yw'r rhag damcaniaethau cyllidol yn gywir ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Mynegwyd nad oes modd rhagweld y nifer o bobl ifanc y bydd angen lleoliadau all sirol ar eu cyfer, na'r cynnydd mewn costau, ac o ganlyniad fod gosod cyllideb gadarn i'r adran yn anodd. Ychwanegwyd fod y Pennaeth Cyllid a'r Gwasanaeth Dadansoddeg ac Ymchwil yn edrych i mewn i'r lefelau chwyddiant a ddefnyddir yn y cyllidebau a gwybodaeth arall gymharol ar hyn o bryd

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00pm a daeth i ben am 1:50pm

CADEIRYDD

Y CABINET DYDD MAWRTH, 16 HYDREF 2018

Yn bresennol-

Y Cynghorwyr: Dyfrig L. Siencyn, Dafydd Meurig, Gareth Wyn Griffith, Nia Wyn Jeffreys, Peredur Jenkins, Dilwyn Morgan, Gareth Thomas, Catrin Wager (Aelod Lleol i Eitem 7) a Gethin Glyn Williams (Aelod Etholedig sydd yn cynrychioli'r Cyngor ar yr Awdurdod Tan i Eitem 10)

Hefyd yn bresennol-

Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol) a Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol).

Eitem 7: Gareth Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd)

Eitem 8: Catherine Roberts (Rheolwr Cyflawni Diogelwch Cymunedol)

Eitem 11: Gareth Jackson (Pennaeth Adran Addysg)

Eitem 12: Arwel Owen (Uwch Reolwr Tai a Llesiant)

Eitem 9-13: Marian Parry Hughes (Pennaeth Adran Plant a Cefnogi Teuluoedd)

Eitem 13-15: Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid)

1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

Derbyniwyd ymddiheuriad gan yr Aelodau Cabinet - Cyng. Craig ab Iago, Cyng. W Gareth Roberts a'r Cyng. Ioan Thomas.

Derbyniwyd ymddiheuriad gan yr Aelodau Lleol - Cyng. Gareth A Roberts, Cyng. Mair Rowlands a Cyng. Elin Walker-Jones ar gyfer eitem 7.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan yr Aelodau etholedig ar yr Awdurdod Tan - Cyng. Annwen Daniels, Cyng. John B Hughes a Cyng. Dilwyn Lloyd ar gyfer eitem 10.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYD

Nid oedd unrhyw faterion bryd.

4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu.

5. COFNODION Y CYFARFODYDD A GYNHALIWDYD AR 11 AR 18 MEDI

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfodydd y Cabinet a gynhaliwyd ar y 31 Gorffennaf 2018, fel rhai cywir

6. CYNLLUN TWF AR GYFER ECONOMI GOGLEDD CYMRU: Y DDOGFEN GYNNIG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dyfrig Siencyn

PENDERFYNWYD

Yn ddarostyngedig nad yw'r penderfyniad yn ymrwmo'r Cyngor i fuddsoddiad ariannol ar y pwynt hwn a bod y risgiau a buddion ariannol i'w ystyried yn llawn pan gaiff y Cynllun terfynol ei gyflwyno i'r Cyngor am gymeradwyaeth:

Fod y Cabinet yn cadarnhau'r Ddogfen Gynnig i'w chymeradwyo i'r Cyngor ei mabwysiadu fel

1. Sail strategaeth ranbarthol tymor hwy ar gyfer twf economaidd
2. Cais rhanbarthol ar gyfer rhaglenni a'r prosiectau blaenoriaeth a ddefnyddir i ffurfio cynnwys Cynllun Twf ar y cam Penawdau'r Telerau gyda'r Llywodraeth.

Awdurdodi'r Arweinydd i ymrwmo'r Cyngor i Benawdau'r Telerau gyda'r Llywodraethau law yn llawn ag arweinyddion gwleidyddol a phroffesiynol o'r naw partner statudol arall a chynrychioli ar Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, a Chyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy, gyda'r Ddogfen Gynnig yn gosod y ffiniau ar gyfer y cytundeb Penawdau'r Telerau.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y Ddogfen Gynnig yn ffrwyth llafur misoedd o waith rhanbarthol dros y gogledd. Ychwanegwyd fod y Cynllun yn brosiect partneriaeth sydd yn cynnwys 6 Awdurdod Lleol, 2 Brifysgol a 2 o Golegau Addysg Uwch. Ategwyd fod rôl y sector breifat yn ganolog i'r Cynllun gyda sawl sesiwn wedi ei gynnal i drafod y Cynllun gyda hwy.

Mynegwyd yn hanesyddol fod 15 i 20 Cynllun Economaidd ar draws y rhanbarth, ond o ganlyniad i'r Cynllun TWF dim ond un Cynllun fydd. Pwysleisiwyd fod y weledigaeth a'r uchelgais y cynllun yn glir sef i ledaenu prosiectau a chynlluniau TWF ar draws rhanbarth y Gogledd. Ychwanegwyd fod y Ddogfen sail i annog adnoddau pellach i fuddsoddi er mwyn datblygu economi'r Gogledd am y blynyddoedd i ddod.

Nodwyd fod 16 prosiect yn sail i'r cynllun, a drwy hyn mae'n sicrhau y bydd buddsoddiad yn cael ei rannu ar draws y gogledd. Manylwyd ar y prosiectau gan nodi y bydd rhai ar gyfer safleoedd penodol a rhai ar gyfer y rhanbarth gyfan.

Esboniwyd fod y Ddogfen wedi bod yng nghyfarfod Craffu Addysg ac Economi a bod y craffwyr wedi ei gymeradwyo ar ôl trafodaeth adeiladol a chwestiynau heriol. Ychwanegwyd fod sesiynau wedi eu cynnal ar sector breifat, sydd wedi dangos brwdfrydedd i'r cynllun. Mynegwyd y bydd y Ddogfen Gynnig yn mynd o

flaen y Cyngor Llawn cyn diwedd y mis, ond pwysleisiwyd mai cefnogaeth i'r ddogfen y bydd angen gan y Cyngor ac ni fydd y penderfyniad cyfredol yn golygu ymrwymiad ariannol, a daw argymhelliad dilynol gerbron y Cyngor eto, gyda gwybodaeth mwy pendant am y gost. Drwy gefnogi'r Ddogfen Gynnig bydd modd sbarduno'r drafodaeth am y Cynllun gyda Llywodraeth San Steffan a Llywodraeth Cymru, ac y bydd un llais cryf yn trafod yr economi dros ranbarth y Gogledd.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Nodwyd cefnogaeth i'r cynllun a bod angen denu arian a swyddi i Wynedd, ond codwyd y cwestiwn o sut y bydd modd denu adnoddau yn benodol i Dde'r sir. Ategwyd mai amcan y Cynllun yw bod prosiectau yn cael eu lledaenu ar draws y Gogledd. Ychwanegwyd fod rhai prosiectau penodol i safleoedd ond mynegwyd fod prosiectau megis Rhaglen Trafnidiaeth, Rhaglen Llwybrau i Sgiliau a Chyflogaeth a Rhaglen Cysylltedd Digidol yn cael eu lledaenu i bob rhan o'r sir. Bydd buddsoddiad penodol yn cael ei wneud mewn ardaloedd gwahanol ar draws y sir gan ychwanegu y bydd sylw penodol yn cael ei roi i Feirionnydd.
- Trafodwyd pwysigrwyd i beidio ymrwymo arian ar hyn o bryd. Cadarnhawyd na fyddai arian yn cael ei ymrwymo gan y penderfyniad cyfredol, a bod gwaith ar broffilio gwariant, ffynonellau incwm, a threfniadau cyd-ariannu posib yn parhau, cyn y byddwn yn dod ag argymhelliad dilynol gyda gwybodaeth mwy pendant am y gost gerbron. Ond nodwyd fod trafodaethau cychwynnol wedi eu cynnal gyda'r ddwy Lywodraeth, gyda golwg o gael y cynllun mor agos at fod yn hunan-gynhaliol a sy'n bosibl. Ychwanegwyd fod cyfle i dderbyn incwm i mewn o ganlyniad i'r Cynllun.
- Nodwyd fod y lefel yma o fuddsoddiad yn newyddion da, a bod y gwaith da yn cael ei wneud gan y Bwrdd Uchelgais ar draws y rhanbarth yn ddaearyddol ac ar draws sectorau.
- Adroddwyd fod y pwyllgor Craffu Addysg ac Economi wedi ystyried yr adroddiad ac wedi amlygu materion oedd yn adlewyrchu risgiau oedd yn destun sylw. Adroddwyd eu bod yn gefnogol i symud ymlaen a'r cynnig.

7. COD GWIRFODDOL AR GYFER RHEOLAETH O ARWYDDION AR OSOD YM MANGOR

Cyflwynwyd yr eitem gan Cyng. Dafydd Meurig

PENDERFYNWYD

Mabwysiadwyd y Cod Gwirfoddol ar gyfer rheolaeth o arwyddion ar osod ym Mangor a dirprwyo'r hawl i'r Uwch Reolwyr Gwasanaeth Cynllun a Gwarchod y Cyhoedd i roi trefniadau yn eu lle ar gyfer gweithredu'r Cod Gwirfoddol.

Bod llwyddiant y Cod Gwirfoddol yn cael ei fonitro a'i asesu cyn diwedd Mawrth 2020 a'r casgliadau'n cael eu hadrodd yn ôl i'r Cabinet cyn Medi 2020.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod poblogaeth Bangor yn dyblu yn ystod y

flwyddyn o ganlyniad i fyfyrwyr yn symud i'r ddinas. O ganlyniad i hyn, ychwanegwyd, mae'r nifer o dai ar gael i'w gosod. Mynegwyd fod trigolion lleol yn teimlo fod yr arwyddion i fyny drwy gydol y flwyddyn ac o ganlyniad yn cael effaith negyddol difrifol ar ardaloedd penodol ac effaith negyddol ar ddelwedd y Ddinas a'r Brifysgol fel lle i fyw, gweithio ac astudio.

Mynegwyd fod ymgyrchoedd lleol wedi ei chynnal i newid hyn ac yn dilyn gwaith pellach mae'r adran bellach mewn lle i fabwysiadau Cod i Asiantaethau Tai. Ychwanegwyd nad yw rheoliadau wedi'u diweddarau ers 1992 ac felly nid ydynt wedi ymateb i'r newidiadau sydd wedi bob i'r math o lety sydd yn cael ei osod na'r drefn o hysbysebu. Esboniwyd fod gwaith ymgyngori wedi ei gynnal yn trafod y cod gyda'r asiantaethau sydd wedi nodi pryd fydd modd hysbysebu, pa strydoedd y bydd y cod yn ei effeithio a ble fydd modd hysbysebu ar dai. Ychwanegwyd na fydd cost ychwanegol i'r Cyngor o ganlyniad i'r Cod ond bydd angen monitro'r sefyllfa a bydd yr adran yn dod ag adroddiad yn nodi'r newidiadau ym mis Medi 2020.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Ychwanegodd yr Aelod Lleol - fod trigolion yn teimlo yn gryf am yr eitem hon. Nodwyd fod rhai strydoedd ble mae arwyddion Ar Osod i'w gweld ym mhob tŷ gan ategu ei fod yn anfon y ddelwedd anghywir o Fangor. Esboniwyd nad yw'r tai ble mae'r arwyddion i'w gweld gan amlaf yn wag, a bod yr arwyddion yn cael eu defnyddio fel hysbysebion yn unig. Mynegwyd fod tai sydd a'r arwyddion Ar osod o flaen eu tai yn ddwywaith fwy tebygol o gael rhywun yn torri i mewn i'w tŷ. Mynegwyd ei bod yn gobeithio y bydd y cynllun yn gweithio gan fod Bangor yn hwb economaidd angen sicrhau nad yw'n edrych fel bod pob tŷ Ar Osod.
- Nodwyd ei fod yn syniad da a bod sut mae'r adran yn ymdrin â'r broblem yn ffordd lesol. Trafodwyd sut y bydd y cynllun yn cael ei fonitro, a sut y bydd sicrhau y bydd yr hysbysebion yn rhai dwyieithog. Ychwanegwyd y bydd monitro yn digwydd gan yr adran.

8. STRATEGAETH RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU; TRAIS YN ERBYN MENYWOD, TRAIS YN Y CATREF A CAMDRINIAETH RHYWIOL

Cyflwynwyd gan Cyng. Nia Jeffreys

PENDERFYNIAD

Mabwysiadu Strategaeth Gogledd Cymru ar gyfer Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yn ffurfiol fel un o'r awdurdodau cyfrifol a ddynodwyd dan ddeddfwriaeth.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei fod y Ddeddf Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, yn gosod dyletswydd ar bob Awdurdod Lleol, Bwrdd Iechyd, Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru a'r Gwasanaethau Tan ac Achub i weithredu ar y ddeddfwriaeth hon. Nodwyd fod y Llywodraeth yn ffafrio dull rhanbarthol o ran y gofynion deddfwriaethol ac felly mae'r strategaeth ar gyfer Gogledd Cymru.

Nodwyd gweledigaeth y strategaeth, sef i bobl Gogledd Cymru allu byw bywydau diogel, cyfartal, di-drais, mewn cymunedau heb drais, yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Ychwanegwyd fod natur y ddeddf gan Lywodraeth Cymru yn pwysleisio fod angen i gymdeithas fod yn ymwybodol o beth sydd yn dderbyniol o fewn cymdeithas.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Trafodwyd sut y bydd codi ymwybyddiaeth, nodwyd fod cynllun gweithredu wedi ei greu sydd yn nodi cynlluniau a hyfforddiant fydd yn cael ei gynnal a bydd y strategaeth yn cael ei roi ar y wefan.

9. TREFNIADAU AR GYFER CYNNAL ADOLYGIAD RHEOLAETHOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Nia Jeffreys

PENDERFYNIAD

Derbyn y syniad fod y Cabinet yn eistedd mewn ar sesiynau herio y mae'r Prif Weithredwr yn bwriadu eu cynnal a'u bod yn cydsynio i'r syniad o wahodd Cadeiryddion ac Is Gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu (gan gynnwys y Pwyllgor Archwilio) i'r sesiynau hyn.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi yn y Cabinet 22 Mai eleni, trafodwyd rhagolygon ar gyfer sefyllfa ariannol y Cyngor am y cyfnod i ddod. Comisiynwyd Adroddiad Rheolaethol er mwyn ystyried a oes angen cyfyngu mwy ar y swyddogaeth reolaethol o fewn y Cyngor.

Nodwyd fel rhan o lunio adroddiad bydd y Prif Weithredwr yn cynnal sesiynau herio priodol gyda Phenaethiaid Adran eu mwy herio'r trefniadau perthnasol. Ychwanegwyd er mwyn bod mor gynhwysol â phosib nodwyd fod y Prif Weithredwr yn awyddus i'r aelodau Cabinet, Cadeiryddion ac Is Gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu fod yn rhan o'r sesiynau herio er mwyn cael eu barn cyn llunio ei argymhellion.

10. YMGYNGHORIAETH YR AWDUDROD TAN

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dyfrig Siencyn

PENDERFYNIAD

Bu i'r Cabinet adnabod egwyddorion ar gyfer ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus gan Awdurdod Tan ac Achub Gogledd Cymru, a phenderfynwyd y bydd yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr yn llunio ymateb llawn i'r ymgynghoriad o fewn yr amserlen.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr Awdurdod Tan wedi bod yng nghyfarfod blaenorol y Cyngor Llawn yn trafod eu hymgyngoriad cyhoeddus. Ychwanegwyd cyd-destun yr ymgynghoriad yw, gan fod yr Awdurdod dan bwysau ariannol, yw cynyddu'r ardoll o 6%.

Ychwanegodd yr Aelod Etholedig sydd yn cynrychioli'r Cyngor ar yr Awdurdod Tan fod yr awdurdod dan bwysau yn ariannol a bod angen dod o hyd i £1.9miliwn os bydd y gwasanaeth yn parhau ar yr un lefel. Ychwanegwyd os na fydd yr Awdurdod yn dod o hyd i'r arian ychwanegol bydd angen lleihau'r gwasanaeth sydd ar gael. Ategwyd fod yr ymgynghoriad yn ysgogi trafodaeth o beth yw gwerth y gwasanaeth, ac os yw'r cyhoedd am barhau ar yr un lefel o wasanaeth neu leihau. Nodwyd drwy godi'r ardoll o 6% gall olygu 0.5% ychwanegol ar y dreth Cyngor.

Esboniwyd fod y setliad sydd wedi ei gyhoeddi yn ystod yr wythnosau diwethaf wedi nodi gostyngiad i'r Cyngor a all olygu y bydd angen i'r Cyngor ddod o hyd i fwch ariannol o hyd at £13miliwn yn ystod 2019/20. Pwysleisiwyd y bydd unrhyw doriadau yn gwneud gwahaniaeth mawr i lefel y gwasanaeth sydd ar gael i drigolion Gwynedd.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod y gwaith mae'r Awdurdod tan yn waith gwych ond teimlwyd fod angen i'r Awdurdod wneud gwaith pellach yn edrych ar arbedion effeithlonrwydd.

11.

ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS ADDYSG

Cyflwynwyd gan Cyng. Gareth Thomas

PENDERFYNIAD

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi ei graffu mewn cyfarfodydd Herio Perfformiad yr Adran. Ychwanegwyd fod yr adran wedi cychwyn gweithredu Cynllun y Cyngor.

Tynnwyd sylw at y sefyllfa ariannol gan nodi fod llithriad mewn gweithredu'r cynllun codi ffi ar gyfer gofal cyn amser cychwyn brechwast am ddim 2017/18 a rhagwelir cyflawni'r targed incwm ffi gofal yn llawn erbyn 2018/19. Ychwanegwyd fod £3,738,010 wedi ei wireddu o'r cynllun 'Arbedion Effeithiolrwydd Ysgolion o'r £4.3m. Ategwyd fod y Cabinet eisoes wedi cytuno i ohirio gweithredu arbediad Ysgolion Uwchradd o £298,990 o'r flwyddyn gyllidol 2017/18 i 2019/20. Ychwanegwyd fod yr ysgolion yn gwbl ymwybodol o amseriad diwygiedig y toriad.

Nodwyd fod y Maes Cludiant yn un cymhleth, gan fod yr adran yn parhau i orwario yn y maes. Nodwyd fod amrywiol resymau pam fod plant yn cael cludiant i'r ysgolion ac ychwanegwyd eu bod yn rhesymau teilwng. Mynegwyd fod yr adran wedi comisiynu gwaith i roi sylw manwl i'r gorwariant ac mae argymhellion

cychwynnol mewn lle a champau gweithredu. Ategwyd fod gwaith ychwanegol angen ei wneud ac edrych yn drawsadrannol ar y ddarpariaeth o gludiant.

Trafodwyd canlyniadau'r Haf a nodwyd fod gostyngiad cenedlaethol yng nghanlyniadau'r cyfnod sylfaen. Ychwanegwyd fod Cyfnod Allweddol 2 a 3 a pherfformiad da ar y cyfan. Er hyn, nodwyd fod newidiadau sylweddol i batrwm a chanlyniadau TGAU Saesneg gyda gostyngiad o 12.1%. Mae hyn o ganlyniad i newidiadau i'r ffin marciau o 20 marc. Ychwanegwyd fod trafodaethau wedi bod gyda Chymwysterau Cymru am y mater.

Materion yn codi o'r drafodaeth

- Trafodwyd canlyniadau TGAU Saesneg - gan nodi fod holl benaethiaid Gwynedd, Awdurdodau Cymru a GwE wedi cysylltu â Chymwysterau Cymru am y mater. Ychwanegwyd fod ymatebiad wedi ei dderbyn sydd yn nodi nad oedd yr 20 marc o wahaniaeth yn gwneud gwahaniaeth i'r bobl ifanc. Ychwanegwyd y bydd y mater yn mynd ymhellach at Lywodraeth Cymru, gan nodi fod y sefyllfa yn un annheg ac anffodus sydd yn ei gwneud yn anodd i ysgolion a'r adran i gymharu un flwyddyn i'r llall.
- Tynnwyd sylw ar y ffaith nad yw cynnig presennol ar gyfer datblygu arweinyddiaeth yn addas i bwrpas gan ategu fod yr adran yn gweithio gyda GwE er mwyn datblygu cynllun hyfforddiant. Ychwanegwyd fod llawer o'r swyddi arweiniol o fewn ysgolion yn rhai newydd o fewn y 10 mlynedd diwethaf.
- Tynnwyd sylw at Ysgol Tywyn a enillodd Wobr Daily Post ar gyfer Ysgol Orau yn y Gymuned a'r ganmoliaeth sydd wedi ei wneud i'r ethos o gynyddu'r defnydd o Gymraeg o fewn yr ysgol.
- Gwaith yn parhau i annog ysgolion i chwifio'r Faner Genedlaethol tu allan i'r ysgolion.

12.

ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS DAI, DIWYLLIANT A HAMDDEN

Cyflwynwyd gan Morwena Edwards ac Iwan Trefor Jones

PENDERFYNIAD

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

Cymeradwyo i ail-broffilio arbedion cyfleusterau hamdden am swm o £157k oherwydd na fydd yr arbedion yn cael ei gyflawni yn 2018-19 gan nad yw Cwmni Byw'n lach yn weithredol tan Ebrill 1af 2019.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr holl faterion wedi ei drafod yn y cyfarfodydd perfformiad. Ychwanegwyd mai'r brif elfen wrth edrych ar y maes tai yw'r bwriad o ddod a Strategaeth Tai i'r Cabinet. Ychwanegwyd fod y cynllun yn rhedeg hwyr a gobeithir y bydd yn cael ei drafod yn y misoedd nesaf. Mynegwyd fod angen cael dealltwriaeth glir o anghenion ardaloedd gan sicrhau fod y strategaeth amlinellu'r brif flaenoriaeth ar gyfer y Maes Tai. Cydnabuwyd fod angen edrych yn fanylach yn benodol ar y maes Digartrefedd.

Tynnwyd sylw ar y Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth gan bwysleisio fod y Llyfrgell ar ei newydd wedd wedi agor yn Y Bala. Mynegwyd fod ymateb positif wedi bod i'r Llyfrgell newydd. Nodwyd fod Llyfrgelloedd wedi bod yn treialu peiriannau hunanwasanaeth a bod hyn yn rhyddhau amser staff. Mynegwyd fod y gwasanaeth wedi bod yn casglu gwybodaeth am yr ymholiadau maent yn eu cael mewn llyfrgelloedd sydd wedi dangos fod hanner y bobl sydd yn dod i'r Llyfrgelloedd ddim yn dod i fenthyg llyfr. Esboniwyd fod y llyfrgelloedd bellach yn cael ei defnyddio fel 'siop un stop' i bob pwrpas.

Nodwyd fod caran o blant sydd yn 11 oed sydd wedi cyrraedd safon nofio'r Cwricwlwm yn codi yn flynyddol a bod gwaith arbennig wedi ei gyflawni yn nalgylch Canolfan Bro Dysynni. Ychwanegwyd fod gofyn i'r Cabinet gymeradwyo ail-broffilio arbedion cyfleusterau hamdden oherwydd na fyddant yn cael eu cyflawni yn 2018-19 gan nad yw'r Cwmni Byw'n lach yn weithredol tan Ebrill 2019.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Tynnwyd sylw at y dangosydd nifer o ddyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i roi grant cyfleusterau anabl a nodwyd yn 170 o ddyddiau. Ychwanegwyd fod y nifer o ddyddiau yn rhai hir ac ychwanegwyd fod angen edrych yn fanylach ar y nifer o ddyddiau gan ychwanegu fod yr adran yn awyddus i ddod o hyd i'r ffordd symla o weithio.
 - Trafodwyd niferoedd sydd yn ymweld â'r Llyfrgell gan nodi fod angen adolygu'r ffigwr. Ychwanegwyd fod angen cyd-weithredid a chymunedau lleol i weld parhad i ddarpariaeth y Llyfrgelloedd.
- 13.

CYLLIDEB REFENIW 2018/19 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2018

Cyflwynwyd gan Cyng. Peredur Jenkins

PENDERFYNIAD

- . Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Awst 2018 o'r Gyllideb Refeniw, ac ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth.
- Gofyn i'r Aelodau Cabinet ar gyfer gwasanaethau Plant, Addysg a Phrifyrdd a Bwrdeistrefol sicrhau fod yna gynllun gweithredu clir gan yr adrannau i gymryd camau i leihau'r diffyg ariannol ac i drafod y cynlluniau hynny gyda mi er mwyn cael hyder eu bod yn rhesymol.
- Digolledu'r Adran Economi a Chymuned £40k sef y golled incwm yn dilyn cau pwll nofio Arfon dros yr haf.
- Cynaeafu (£1,904) o'r tanwariant net ar gyllidebau Corfforaethol, gyda (£40k) i'w defnyddio i ddigolledu'r Adran Economi a Chymuned am y golled incwm tra bu Pwll Nofio Arfon ar gau. Gyda'r gweddill sef (£1,864) i'w drosglwyddo i Gronfa Cynorthwyo'r Strategaeth Ariannol i gynorthwyo gyda phwysau anochel un tro ar gyllidebau'r Cyngor.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad yn manylu ar yr adolygiad diweddaraf o gyllideb refeniw'r Cyngor ynghyd a rhagolygon ar gyfer diwedd y flwyddyn ariannol. Ychwanegwyd ers 2015 fod y Cyngor wedi cael cyfnod heriol gydag arbedion o £27miliwn yn ystod y cyfnod.

Ategwyd fod y cyllidebau diwedd Awst yn dangos darlun cymysg gyda rheolaeth ariannol dderbyniol gan nifer o adrannau. Ychwanegwyd fod y rhagolygon yn nodi erbyn diwedd Mawrth y bydd 5 adran yn gorwario a 5 adran yn tanwario. O ganlyniad i orwariant, nodwyd y bydd angen i rai adrannau gynnig camau gweithredu pendant er mwyn sicrhau rheolaeth o'u cyllidebau erbyn 31 Mawrth 2019, sef Adran Addysg, Plant a Chefnogi Teuluoedd, a Phrifyrdd a Bwrdeistrefol. Nodwyd fod yr aelod Cabinet dros yr adran Addysg wedi nodi ei sylwadau am y tan wariant yn yr adroddiad perfformiad.

Mynegodd yr Aelod Cabinet dros Blant a Theuluoedd fod cyllideb yr adran yn un hynod heriol. Ychwanegwyd nad yw'r gyllideb ddim yn ymarferol yn benodol wrth edrych ar achosion dwys a chymhleth,. Ymhelaethwyd gan nodi fod gorwariant yn yr adran Blant yn broblem Genedlaethol a Rhanbarthol. Mynegwyd fod yr adran yn ceisio dod o hyd i ateb ac y bydd adroddiad mawl yn cael ei baratoi i wynebu'r heriau er mwyn symud ymlaen.

Nododd yr Aelod Cabinet dros Brifyrdd a Bwrdeistrefol fod cynnydd wedi bod mewn costau gweithredol a bod gorwariant cysylltiedig â salwch yn parhau i beri problemau. Ychwanegwyd fod yr adran wedi cymryd camau i geisio datrysiaid ond fod gwaith pellach i'w wneud. Ychwanegwyd fod colled incwm wedi bod ar yr ochor gwastraff masnachol o ganlyniad i gystadleuaeth allanol a busnesau yn cau. Nododd ei fod yn gobeithio fod modd gweithredu o fewn y gyllideb bresennol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

14.

RHAGLEN GYFALAF 2018/19 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2018

Cyflwynwyd gan Cyng. Peredur Jenkins

PENDERFYNIAD

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Awst (sefyllfa 31 Awst 2018) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:

- £8,444,000 mewn amryw ffynonellau i ariannu gwir lithriadau o 2017/18
- £10,000 cynnydd mewn defnydd o fenthyca
- £10,988,000 cynnydd mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
- £789,000 cynnydd mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
- £187,000 cynnydd mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
- £4,859,000 cynnydd mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad yn cynnwys dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf am 3 blynedd 2018/19 - 2020/21 sydd yn £47.022m. Ychwanegwyd fod cynnydd net oddeutu £25.277m ers y gyllideb agoriadol ac ategwyd fod £8.444m ohono o ganlyniad i lithriadau o 2017/18. Mynegwyd mai grantiau a dderbyniwyd yn hwyr yn ystod y flwyddyn i'r Adran

Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Briffyrdd a Bwrdeistrefol yw'r prif reswm dros y llithriadau.

14. Nodwyd fod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi tua £28.6m yn 2018/19 gyda 34% ohono wedi'i ariannu drwy ddenu grantiau penodol. Diolchwyd i staff yr adrannau am eu gwaith caled.

TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION

Cyflwynwyd gan Cyng. Peredur Jenkins

PENDERFYNIAD

Derbyn yr adroddiad a nodi'r cynnydd calonogol tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2018/19 a blynyddoedd blaenorol.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod 95%, sef £23m o'r £24m ar gyfer 2015/16 - 2017/18 bellach wedi ei gwireddu. Ychwanegwyd fod ychydig o lithriad ar rai o'r cynlluniau gyda nifer ohonynt o'r adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ble mae her o wireddu rhai cynlluniau yn parhau. Nodwyd yn ogystal fod rhai llithriadau gan yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, bu i'r Cabinet ar 11 Medi 2018 gymeradwyo rhai cynlluniau amgen a gohirio gweithredu ar y cynllun Canolfannau Amgylchu,

Mynegwyd wrth edrych ar gynlluniau adrannol am 2018/19, nodwyd o'r 26 o gynlluniau fod 11 eisoes wedi eu gwireddu yn llawn neu'n rhannol, ac yn galonogol dim ond dau gynllun a ragwelir yn llithro. Ategwyd ar y cynlluniau a fydd yn llithro cynllun Dechrau i'r Diwedd a Chynllun Hamdden. Ychwanegwyd o ran weddill y cynlluniau fod y rhagolygon o wireddu yn gyffredinol addawol.

15. Diolchwyd i staff am eu gwaith caled yn dod o hyd i arbedion, gan ychwanegu fod yr adrannau wedi perchnogi'r cynlluniau arbedion. Trafodwyd y sefyllfa ariannol Awdurdodau Lleol eraill gan nodi fod gan Wynedd le i ymfalchïo yn eu hymdrech i ddod o hyd i arbedion.

BLAEN RAGLEN Y CABINET

Cyflwynwyd gan Cyng. Dyfrig Seicyn

PENDERFYNIAD

Cymeradwyo'r Flaen raglen a gynhwyswyd yn y papurau i'r cyfarfod.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd y flaen raglen.

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00pm a daeth i ben am 3:30pm

CADEIRYDD

Eitem 6

ADRODDIAD I'R CABINET

6 Tachwedd 2018

Aelod Cabinet: Cyngorydd Gareth Thomas

Pwnc: Ad-drefnu darpariaeth Addysg Gynradd Dalgylch Bangor

Swyddog Cyswllt: Diane Jones – Arweinydd Prosiect Bangor

Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gweithredu ar y cynnig a gyhoeddwyd 4 Medi 2018 i gau Ysgolion Glanadda a Babanod Coedmawr ar 31 Awst 2020, a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol y Garnedd (yn ddarostyngedig i ddewis rhieni); a chynyddu capasiti Ysgol y Garnedd i 420 yn weithredol 1 Medi 2020.

1.0 CYFLWYNIAD

- 1.1** Ar ddiwedd 2016, hysbysodd Llywodraeth Cymru fod cyfle i Awdurdodau Lleol gyda'r capasiti, i gyflawni prosiectau ychwanegol oddi mewn Band A Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif. Yn sgil hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod Gwynedd fel un o'r Awdurdodau mwyaf llwyddiannus yn cyflawni eu Rhaglen hyd yma ac rydym yn ymfalchïo eu bod yn cyfeirio atom fel enghraifft o ymarfer da yn y maes hwn. O ganlyniad, mae'r Awdurdod wedi bod yn llwyddiannus mewn bid i ad-drefnu ysgolion cynradd yn nalgylch Bangor oddi mewn Band A.
- 1.2** Cyd-destun pwysig yw maint y pecyn sydd ar gael i foderneiddio darpariaeth addysg gynradd yn ninas Bangor. Ers dechrau'r trafodaethau yn y dalgylch, mabwysiadwyd rhaglen o fuddsoddiad cyfalaf gan Lywodraeth Cymru dan faner Rhaglen Ysgolion yr 21ain. Byddai'n debygol o gynnwys buddsoddiad o gyfanswm £12.7 miliwn, gyda £6.35 miliwn o'r swm hwnnw yn grant gan Lywodraeth Cymru, mae ymrwymiad hefyd gan gwmni datblygu tai, fel rhan o gytundeb ar gyfer datblygiad newydd Goetre Uchaf ym Mhenrhosgarnedd.
- 1.3** Fel rhan o'r broses, adnabuwyd nifer o amcanion i'w hystyried ar gyfer y ddarpariaeth yn nalgylch Bangor sef:
- Sicrhau digon o lefydd ar gyfer pob plentyn yn y lleoliadau priodol;
 - Sicrhau nad oes unrhyw ysgol yn orlawn;
 - Sicrhau nad oes unrhyw adeilad ysgol wedi'i asesu yng nghyflwr C neu waeth;
 - Lleihau llefydd gweigion sylweddol mewn ysgolion neu gynyddu effeithiolrwydd;
 - Lleihau amrediad cost y pen ar gyfer darparu addysg yn y dalgylch;
 - Sicrhau bod maint dosbarthiadau yn addas yn yr ysgolion cynradd;
 - Sicrhau nad oes dros 25 disgybl o'r un oedran mewn un dosbarth;
 - Sicrhau nad oes rhagor na 20 disgybl o oedrannau gwahanol mewn un dosbarth;
 - Cysoni ansawdd addysg yn y dalgylch;
 - Sicrhau nad oes unrhyw bennaeth yn treulio rhagor na 20% o'i amser yn dysgu;
 - Datblygu'r defnydd o ysgolion fel adnodd cymunedol;
 - Gwella'r ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn y dalgylch.

- 1.4** Cyflwynwyd adroddiad gerbron y Cabinet ar 17 Ionawr 2017, a chymeradwywyd yr argymhelliad, 'gofyn am yr hawl i gychwyn trafodaethau lleol yn unol â'r adroddiad ynglŷn ag adolygu darpariaeth addysg gynradd ym Mangor'.
- 1.5** Sefydlwyd Panel Adolygu Dalgylch (PAD) Bangor yn ystod Mehefin 2017, a chynhaliwyd pedwar cyfarfod rhwng Mehefin a Thachwedd, gyda'r olaf ar y 29 Tachwedd 2017. Roedd cynrychiolwyr o bob ysgol yn y dalgylch wedi cael gwahoddiad, gan gynnwys pennaeth, Cadeirydd Llywodraethwyr a rhiant llywodraethwyr. Rhoddwyd yn ogystal wahoddiad i'r Aelodau Lleol ac i gynrychiolaeth o'r Eglwys yng Nghymru (Esgobaeth Bangor) ac yr Eglwys Gatholig.
- 1.6** Trafodwyd nifer o opsiynau cyn i'r rhestr hir gael ei chreu. Yr athroniaeth y tu cefn i'r opsiynau oedd ystyried pob ysgol yn y dalgylch, gan geisio ffyrdd fyddai'n gwella a chynnal safon addysg:
- Opsiwn o gydweithio/ffedereiddio rhwng rhai neu holl ysgolion presennol heb gau ysgolion
 - Opsiwn o gydweithio/ffedereiddio rhwng ysgolion yn dilyn cau rhai ysgolion
 - Cau rhai ysgolion cynradd gan drosglwyddo disgyblion i ysgolion cyfagos heb fuddsoddiad cyfalaf na chydweithio rhwng yr ysgolion sy'n weddill
 - Cau rhai ysgolion cynradd gan drosglwyddo disgyblion i ysgolion cyfagos heb fuddsoddiad cyfalaf, a sefydlu cydweithio rhwng yr ysgolion sy'n weddill
 - Cau rhai ysgolion cynradd a sefydlu ysgol(ion) ardal yn dilyn buddsoddiad cyfalaf
 - Sefydlu un ysgol 3-16 neu 3-18 ar un safle i holl ddisgyblion y dalgylch
- 1.7** Cyflwynwyd adroddiad pellach gerbron y Cabinet ar 13 Mawrth 2018, a chymeradwywyd yr argymhelliad i gynnal ymgynghoriad statudol ar y broses o ad-drefnu ysgolion cynradd yn nalgylch Bangor.

2.0 Cyfnod Ymgynghori Statudol

- 2.1** Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a gofynion statudol y Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013), cynhaliwyd cyfnod ymgynghori statudol ar y cynnig gydag ymgynghorai perthnasol rhwng 10 Ebrill 2018 a 13:00 o'r gloch ar 22 Mai 2018.
- 2.2** Lluniwyd dogfen ymgynghori statudol yn unol â gofynion ac arweiniad y Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013) dosbarthwyd copi o'r ddogfen i'r holl ymgynghorai perthnasol, unai ar ffurf copi caled neu drwy anfon e-bost oedd yn cynnwys linc at dudalen arbennig ar wefan y Cyngor (www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg)
- 2.3** Derbyniwyd **68** ymateb i'r ymgynghoriad statudol gan gynnwys ymatebion gan ddisgyblion, staff, llywodraethwyr, preswylwyr a rhieni unigol, yn ogystal â nifer o gyrff.
- 2.4** Yn ystod y cyfnod ymgynghori cynhaliwyd dau sesiwn galw heibio yn Neuadd Reichel, Prifysgol Bangor. Roedd arddangosfa o'r wybodaeth yn y ddogfen ymgynghorol ac roedd swyddogion o adrannau perthnasol (e.e. Addysg, Eiddo, Adnoddau Dynol ayyb) ar gael i egluro ac ymateb i ymholiadau. Roedd yna hefyd gyfle i rai oedd yn mynychu dderbyn copi caled o unrhyw ddogfennaeth berthnasol i'r cynnig ac i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig. Mynychodd **33** o bobl y sesiynau galw heibio.

2.5 Crëwyd dogfen ymgynghorol i blant cynradd gyda holiaduron cysylltiedig. Trefnwyd bod hwylusydd yn ymweld ag ysgolion oedd yn rhan o'r ymgynghoriad i gynnal sesiynau gyda'r disgyblion i ganfod eu barn.

2.6 Ar 3 Gorffennaf 2018, adroddwyd i'r Cabinet unwaith yn rhagor, er mwyn cyflwyno'r prif sylwadau a phwyntiau a dderbyniwyd gan fudd-ddeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad statudol, ynghyd ag ymateb y Cyngor i'r sylwadau hynny. Yn eu cyfarfod, penderfynodd y Cabinet fel y ganlyn:

- i. *Cymeradwyo'r cynnig i gau Ysgolion Glanadda a Babanod Coed Mawr ar 31 Awst 2020, a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol y Garnedd (yn ddarostyngedig i ddewis rhieni); a chynyddu capasiti Ysgol y Garnedd i 420.*
- ii. *Cymeradwyo cyhoeddi rhybuddion statudol ar y cynnig i (i) uchod yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013*

3.0 Cyfnod Gwrthwynebu

3.1 Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013, y Cod Trefniadaeth Ysgolion, a phenderfyniad Cabinet 3 Gorffennaf 2018, cyhoeddwyd rhybudd statudol ar 4 Medi 2018, ac fe gynhaliwyd cyfnod o wrthwynebu statudol ar y cynnig rhwng 4 Medi a 2 Hydref 2018.

3.2 Cyhoeddwyd Rhybuddion Statudol ar 4 Medi 2018 a gosodwyd copïau o'r rhybudd ar giatau'r 3 ysgol sef Ysgol Glanadda, Ysgol Babanod Coedmawr ac Ysgol y Garnedd ac ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg. Dosbarthwyd copïau electroneg a chaled o'r rhybuddion yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Nodwyd yn glir yn y rhybuddion bod modd i unrhyw un wrthwynebu a sut yr oedd modd gwneud hynny.

3.3 Dyma grynodeb o destun y Rhybuddion Statudol

- (a) **CAU YSGOL GLANADDA**, Bangor Gwynedd LL57 4SG ar **31 Awst 2020**.
- (b) **CAU YSGOL BABANOD COEDMAWR**, Bangor, Gwynedd, LL57 4TL ar **31 Awst 2020**.
- (c) **EHANGU** safle YSGOL Y GARNEDD, Ffordd Penrhos, Bangor, LL57 2LX, gan gynyddu'r capasiti i 420 o ddisgyblion blynyddoedd Derbyn i 6, a 30 disgybl Meithrin llawn amser. Bwriedir gwneud hyn drwy drosglwyddo'r ysgol i adeilad newydd sydd i'w godi ar safle ger llaw yr adeilad presennol.

3.4 Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu, mae'n ofynnol i'r Cabinet ystyried adroddiad ffurfiol o'r gwrthwynebiadau a'r ymateb iddynt cyn gwneud penderfyniad terfynol i weithredu'r cynnig ai peidio.

4.0 Gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu

4.1 Pwrpas y rhan hwn yr adroddiad yw cyflwyno crynodeb o'r gwrthwynebiad a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu gan ei dadansoddi ynghyd a chynnwys ymateb y Cyngor. Daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben ar 2 Hydref 2018 a derbyniwyd **1** gwrthwynebiad ysgrifenedig ar bapur.

- 4.2** Yn dilyn derbyn yr **1** gwrthwynebiad aethpwyd ati i ddadansoddi. Derbyniwyd sylwadau yn ymwneud a materion Traffig, Diogelwch plant, Cyllid, Y Gymraeg ac Addysgol, gyda rhai sylwadau wedi ei godi fel rhan o'r ymgynghoriad statudol sydd eisoes wedi ei drafod yng nghyfarfod Cabinet 3 Gorffennaf 2018. Ceir dadansoddiad llawn o'r gwrthwynebiad ynghyd ac ymateb llawn y Cyngor yn **Atodiad 1** yr adroddiad hwn.
- 4.3** Yn dilyn ystyried yr holl sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol **Atodiad 2** a'r gwrthwynebiad a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, mae'r Cyngor yn parhau i fod yn argyhoeddedig mai'r cynnig hwn yw'r opsiwn gorau ar gyfer dyfodol addysg yn nalgylch Bangor.
- 4.4** Gellir mynd i'r afael ar nifer o'r heriau sy'n wynebu Dalgylch Bangor ar hyn o bryd, gan ymateb yn benodol i'r angen am gynnydd yn y galw am lefydd yn ardal Penrhosgarnedd a gwella'r ddarpariaeth i ddysgwyr y ddinas. Bydd y buddsoddiad arfaethedig yn galluogi i:
- Gwell cysondeb yn safon ac ansawdd yr addysg a ddarperir yn y dalgylch
 - Gwella effeithlonrwydd stad yr ysgol, gan leihau nifer o adeiladau mewn cyflwr gwael
 - Gwneud cyfraniad sylweddol tuag at leihau nifer o lefydd gweigion
 - Rhyddhau cyllideb i'w wario ar blant o fewn gyfundrefn addysg yn hytrach nag adeiladau
 - Rhesymoli cost fesul disgybl mewn ysgolion.
 - Sicrhau arweinyddiaeth a rheolaeth gadarn
 - Gwella'r amgylchedd ddysgu i fwy o ddisgyblion a chynyddu'r nifer disgyblion a fydd yn elwa o amgylchedd ddysgu 21ain Ganrif.
 - Gwell cysondeb mewn maint dosbarthiadau a lleihau'r ystod oedran o fewn dosbarthiadau ysgolion cynradd.

5.0 I Grynhoi

- 5.1** Mae'r argymhelliad yma yn dilyn ystyriaeth o ystod eang o opsiynau posib. Crynhowyd y cynigion yma i restr hir o opsiynau posib, a gwerthuswyd yr opsiynau yma'n llawn wrth gymharu prif fanteision ac anfanteision yn erbyn ffactorau penodol. Defnyddiwyd uchelgais y strategaeth 'Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd', ffactorau yn y Cod Trefniadaeth, gweledigaeth dalgylch Bangor a ffactorau perthnasol eraill.
- 5.2** Fel rhan o'r gwerthusiad opsiynau yma, defnyddiwyd hefyd casgliadau asesiadau effaith ardrawiad Cymunedol, leithyddol a Chydraddoldeb. Mae'r asesiadau yma a holl ddogfennaeth gefndirol y cynnig ar gael ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg. Mae gan yr Adran Addysg rôl i hyrwyddo nodau llesiant y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ymysg disgyblion y sir drwy ei weithgareddau a'i brosiectau. Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol a gofynion y deddf llesiant, deuir i'r casgliad fod y cyfeiriad hwnnw yn cydblethu a 7 nod llesiant y Ddeddf, ynghyd ag amcanion llesiant y Cyngor.
- 5.3** Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu cefnogi argymhelliad yr adroddiad hwn, yna gellir bwrw ymlaen gyda'r broses o gau Ysgol Glanadda ac Ysgol Babanod Coedmawr yn Awst 2020 ac adeiladu Ysgol newydd ar gyfer Ysgol y Garnedd gyda'r bwriad o agor yn swyddogol ym Medi 2020.

6.0 Camau Nesaf

6.1 Yn ddarostyngedig ar benderfyniad Cabinet, dyma gamau nesaf y broses gydag amserlen amlinellol;

Camau'r Nesaf	Amserlen Amlinellol
Penderfyniad terfynol gan Gabinet y Cyngor (posib i'r cynnig gael ei atgyfeirio i Weinidog Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru ar ôl y penderfyniad yma)	Tachwedd 2018
Cychwyn y broses o drosglwyddo i'r adeilad newydd	Mehefin 2020
Agor yr ysgol	1 Medi 2020

7.0 Argymhellion

Argymhellir felly:

- i. Cymeradwyo'r cynnig i gau Ysgolion Glanadda a Babanod Coedmawr ar y 31 Awst 2020, a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol y Garnedd (yn ddarostyngedig ar ddewis rhieni); a chynyddu capasiti Ysgol y Garnedd i 420.

Barn yr Aelodau Lleol

Bydd unrhyw sylwadau gan yr Aelodau Lleol yn cael eu cyflwyno yn y cyfarfod.

Barn y Swyddogion Statudol

Y Swyddog Monitro

Mae'r adroddiad yma wedi bod yn destun mewnbwn gan y Gwasanaeth Cyfreithiol felly nid oes gennyf sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Y Pennaeth Cyllid

Rwy'n cefnogi gweithredu yn unol â'r penderfyniad a geisir yn ardal Bangor, tra'n annog aelodau a swyddogion perthnasol i barhau gyda'r prosiect ehangach i adolygu a moderneiddio trefniadaeth ysgolion yn ddi-oed.

Atodiadau

Atodiad 1	Dadansoddiad ac ymatebion y Cyngor i'r gwrthwynebiad a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol.
Atodiad 2	Adroddiad Cabinet 3 Gorffennaf, 2018

DOGFENNAU CEFNDIR

Mae holl ddogfennau cefndir perthnasol y cynnig ar gael ar wefan y Cyngor trwy ddilyn y ddolen www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg.

Mae'r dogfennau cefndir yn cynnwys:

- Cod Trefniadaeth Ysgolion 006/2013
- Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013
- Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Balnt Gwynedd
- Pecyn Ystadegol 2017-18
- Adroddiad Asesiad Ardrawiad Effaith Ieithyddola Chymunedol
- Asesiad Ardrawiad Cydraddoldeb
- Adroddiad a Thaflen Benderfyniad Cabinet – Ionawr 2017
- Adroddiad a Thaflen Benderfyniad Cabinet – Mawrth 2018
- Adroddiad a Thaflen Benderfyniad Cabinet – Gorffennaf 2018
- Dogfen Ymgynghori Statudol 10 Ebrill – 22 Mai 2018
- Dogfennau Ymgynghorol gyda Disgyblion Ysgolion a effeithir gan y cynnig
- Dadansoddiad ac ymateb y Cyngor i sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol
- Rhybuddion Statudol a gyhoeddwyd 4 Medi 2018

Gwrthwynebiadau tuag at gau Ysgolion Babanod Coedmawr a Glanadda ac adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol y Garnedd gan ymestyn y capasiti i 420

(Cyfnod 4 Medi 2018 – 2 Hydref 2018)

Sylwadau		Ymateb Cyngor Gwynedd
Tud. 24	<p>1 Traffig</p> <p>Hoffwn yn gyntaf dynnu eich sylw at y ffaith nad yw y newidiadau arfaethedig yn gwella dim ar y sefyllfa bryderus o beryglus sydd yn bodoli ar hyd Ffordd Penrhos ar adegau allweddol o'r dydd. Fel dwi'n siŵr yr ydych yn ymwybodol, mae y traffig yn eithriadol o drwm yn y boreau ar y ffordd yma gan fod canolfannau addysg fel Coleg Menai, Ysgol Tryfan, Ysgol Cae Top, Ysgol Friars, Ysgol y Faenol ac Ysgol y Garnedd (fel ag y mae ar hyn o bryd) i gyd yn ceisio cael plant a myfyrwyr i'w canolfan erbyn dechrau y dydd.</p>	<p>Mae arolygon traffig wedi cael eu cynnal ar Ffordd Penrhos ac mae arolygon o sut mae disgyblion yn teithio i'r Ysgol wedi eu cwblhau. Mae'r Tîm Dylunio wedi cymryd ystyriaeth ohonynt wrth lunio'r dyluniadau gyda'r bwriad o liniaru risgiau llif traffig, cerddwyr a beicwyr a chreu llwybrau diogel i'r Ysgol. Mae hyn yn un o brif amcanion y prosiect.</p> <p>Bellach mae'r dyluniad ar gyfer y meysydd parcio a mannau gollwng plant wedi ei lunio a bydd y datblygiad newydd yn cyfrannu at wella'r sefyllfa draffig bresennol mewn dwy ffordd:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Bydd yn darparu dros 30 o lefydd parcio ychwanegol i'r hyn sydd ar gael heddiw. 2. Bydd yn creu system lwp newydd a fydd yn caniatáu i gerbydau droi oddi ar Ffordd Penrhos yn hwylus ac yna disgwyl eu tro oddi mewn i ffiniau'r safle yn hytrach nag ar Ffordd Penrhos fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Bydd dyluniad y ffyrdd o fewn y safle yn caniatáu tynnu nifer sylweddol yn fwy o geir oddi ar briffordd ar adegau prysur. Bydd rhieni yn gallu gollwng eu plant o fewn cerddediad rhesymol i fynedfa'r ysgol. <p>Felly dylai'r ddau ffactor uchod arwain at welliant nid yn unig i rieni a staff Ysgol y Garnedd, ond i bawb arall sy'n defnyddio'r rhan hon o Ffordd Penrhos yn ystod yr oriau brig.</p>
	<p>Credwn y dylid ystyried ail-agor y ffordd o Ffordd Caergybi i fyny allt Bryn Tawel i roddi dewis o fynediad i lawer o'r canolfannau addysg a nodir uchod. Buasai hyn yn lleihau yr angen i bawb orfod defnyddio Ffordd Penrhos ac felly yn liniaru dipyn ar y broblem a ddisgrifir uchod. Gan bod yna bellach gylchfan wrth fynedfa cae peldroed Nantporth awgrymir y buasai teithwyr o gyfeiriad o gyfeiriad yr Antelope yn mynd at y gylchfan</p>	<p>Mae'r gallu i ailagor y ffordd hon tu hwnt i sgop y Prosiect ac nid oes cyswllt uniongyrchol gyda'r safle. Mae'r Uned Drafnidiaeth wedi cadarnhau fod y ffordd wedi ei chau yn wreiddiol oherwydd peryglon y gyffordd/ croesi traffig, fod cyfyngiad pwysau ar y bont rheilffordd a'r effaith ar lif traffig yn gyffredinol yn ardal Ffordd Caergybi.</p>

	yma gwneud tro u bedol ac wedyn cael mynediad i fyny allt Bryn Tawel yn ddiogel heb orfod croesi llif y traffig. Gofynnwn ichwi roi ystyriaeth ddwys i'r uchod.	
2	Diogelwch plant / teithio i'r ysgol	
	Er bod yna rhywfaint o ymdrech wedi eu wneud i'r sefydliadau gychwyn ar amseroedd gwahanol nid yw wedi effeithio lawer os ogwbl ar y sefyllfa yn mynd i waethygu gan bydd ychwanegiad i'r nifer o ddisgyblion fydd yn mynychu yn yr ardal hon. Mae y sefyllfa yn gwaethygu eto gan y disgwylir i blant Coed Mawr a Glanadda groesi y ffordd yma i gael mynediad i'r ysgol.	Gellir ail-edrych ar y sefyllfa o ran amseroedd cychwyn ysgolion i weld os byddai newid pellach yn gwella diogelwch. Mae arolygon traffig wedi cael eu cynnal ar Ffordd Penrhos ac mae arolygon o sut mae disgyblion yn teithio i'r Ysgol wedi cael eu gwneud. Bydd y Tîm Dylunio yn gweithio i liniaru risgiau llif traffig, cerddwyr a beicwyr a chreu llwybrau diogel i'r Ysgol.
3	Cyllid	
	Gan droi at sefyllfa y ddwy ysgol a argymhellir eu cau, fel y gwyddoch mae yr ysgolion bellach wedi uno ar safle Glanadda o dan arweiniad Pennaeth newydd eto sef Ms Caren Rowlands sydd ar secondiad o ysgol Glancegin. Mae hyn wedi rhoi teimlad o undod ymhlith y staff, mae'r disgyblion yn cael profiadau ehangach o safbwynt gweithgareddau cwricwlaidd ac all-gyrsiol. Pan oedd y Cabinet yn cysidro y sefyllfa ar ddechrau haf 2018 fe bwysleisiwyd iddynt bod y ddwy ysgol efo nifer annerbyniol o lefydd gweigion a bod cost y pen yn llawer uwch nag yn ysgolion eraill y ddinas. Bellach, wrth ddod at ei gilydd ar yn safle nid yw hynny yn wir gan niferoedd llefydd gwag yn debyg os nad yn llai na llawer i ysgol arall yn y sir. Hefyd, bellach, efo ail-strwythuro y staff mae cost y pen yn llawer agosach i'r norm. Felly mae yr ysgol yn agosach ei sefyllfa i lawer o ysgolion eraill y sir ac yn sicr o ran y ddau bennawd a nodwyd yn hyfyw.	Drwy leoli Ysgolion Glanadda a Coedmawr ar un safle mae hyn wedi cyfrannu ar leihau llefydd gweigion, serch hynny mae'r Ysgolion yn parhau i fod yn endidau cyfreithiol arwahan ac mae'r ddwy ysgol yn parhau i'w cyllido arwahan yn unol â fformiwla cyllido ysgolion cynradd yr Awdurdod. Mae hyn yn golygu nad oes gostyngiad yn y cost y pen ac mae Ysgol Coedmawr yn parhau i dderbyn gwarchodaeth lleiafswm staffio o £32,520.
4	Cyfleusterau / cynnal a chadw	
	Credaf yn groes i ddyddiad y Cabinet y dylid cadw yr Ysgol yn Glanadda yn agored gan roddi dewis i blant yr ardal gael addysg yn fwy lleol ac ar safle sydd a chyfleusterau fel cae peldroed ac adeilad er ei oed sydd mewn cyflwr llawer gwell na llawer o ysgolion Gwynedd. Mae Cyngor Sir dros yr Haf 2018 wedi gwario ar addasu yr ysgol i dderbyn plant Cyfnod Sylfaen ac mae y ddarpariaeth hynny yn gweithio yn dda. Trueni fyddai gweld y buddsoddiad hwnnw yn mynd yn wastraff mewn cyfnod byr ac mewn hinsawdd lle mae bob ceiniog yn cyfrif	Fe fu peth gwariant yn ystod gwyliau'r Haf i addasu'r adeilad i dderbyn dysgwyr Cyfnod Sylfaen o safle Coed Mawr. Y penderfyniad oedd gwneud yr isafswm posibl o waith i hwyluso'r symudiad er mwyn cadw'r costau mor isel a phosibl. Mae'r gwaith a wnaethwyd yn diwallu'r anghenion yn y tymor byr, ond pe bai angen i'r cyfleuster fod mewn lle am ychydig o flynyddoedd, yna byddai'n rhaid gwneud gwaith sylweddol i'r adeilad, e.e. addasu'r toiledau.

5 Mynediad	
Deallaf hefyd ers dechrau y tymor bod yr ysgol yn parhau i dderbyn ceisiadau ar gyfer disgyblion yn trosglwyddo ac felly rhag-amcanir y bydd niferoedd yn parhâi i godi yn ystod y flwyddyn. Felly fe ddylid ail ystyried y meini prawf a roddwyd ymlaen ar ddechrau yr haf ac a fu yn sail y ddadl dros gau y ddwy ysgol yma.	Gan nad oes penderfyniadau terfynol wedi'u cymryd mae'r Cyngor yn parhau i brosesu ceisiadau mynediad/trosglwyddo ysgolion. Bydd hyn yn effeithio niferoedd disgyblion.
6 Ein Harglwyddes	
Yn ychwanegol i'r uchod fe gredaf bod yna gynlluniau ar y gweill pan ddaw yr haen newydd o arian gan Lywodraeth Cymru i wella ysgolion yn cynnwys adleoli Ysgol Ein Harglwyddes. Yn nhrefodaethau y Cyngor a holl ysgolion cylch Bangor fe amlygwyd cyflwr a peryglon safle Ysgol Ein Harglwyddes ac fe wnaed addewid y buasai ysgol newydd yn cael ei chynnig pan ddaw arian newydd y Llywodraeth. Deallaf na fydd adeiladu ysgol newydd yn costio i Cyngor Gwynedd gan bod arian y Llywodraeth ac arian yr Eglwys Gatholig fydd yn ysgwyddo y baich i gyd. Wrth gau Ysgol Glanadda ymhen dwy flynedd fe fydd y safle yn dod yn rhydd ac felly yn le gwych i sefydlu yr ysgol newydd. Mae hyn yn ddamcaniaeth synhwyrol ar y wyneb.	Fel rhan o weledigaeth ar gyfer Dalgylch Bangor mae bwriad i edrych ar adeilad newydd ar gyfer Ysgol Ein Harglwyddes a mae angen cyfarch diogelwch a mynedfa yr ysgol. Serch hynny, nid oes unrhyw benderfyniad wedi ei wneud ynglŷn a safleoedd posib ar hyn o bryd.
7 Iaith Gymraeg	
Rhaid cofio bod Ysgol Ein Harglwyddes yn dysgu a gweinyddu yn yr iaith Saesneg sydd er bod yn groes i egwyddorion sylfaenol Cyngor Gwynedd yn dal i gael ei oddef. Mae yr elfen ieithyddol yma yn gallu bod yn apelio i ganran helaeth o boblogaeth y rhan yma o Fangor. Ein pryder yw os bydd rhieni yr ardal yn gallu dewis rhwng Ysgol Garnedd newydd fydd yn ysgol gyfrwng Gymraeg ac ysgol Ein Harglwyddes newydd fydd yn gweithredu trwy y Saesneg y byddent yn dewis yr ysgol fwyaf lleol sef yr ail ddewis. Felly rydym yn gwrthwynebu cau Ysgol Glanadda ar yr egwyddor ein bod yn gweld hyn yn gam mawr yn ôl yn yr ymdrech i geisio hyrwyddo yr iaith Gymraeg yn y Ddinas ac wrth gwrs yn gam negyddol yn ymdrechion Llywodraeth Cymru o geisio cael miliwn o siaradwyr Gymraeg. Os bydd y Cabinet yn para efo'r cynllun fel ag y mae a chau Ysgol Glanadda bydd y Cabinet yn ein tyb ni yn penderfynu hyrwyddo addysg trwy gyfrwng y Saesneg yn yr ardal yma o Fangor a fedra i na'r fod yn bleidiol i wneud hynny. Ni fydd addewidion o ymdrechion cryf i newid y sefyllfa ieithyddol yn Ysgol Ein Harglwyddes yn ein darbwylllo gan nad yw wedi digwydd yn 30 mlynedd diweddfaf er ymdrechion glew.	Mae Cyngor Gwynedd wedi llunio Polisi Iaith er mwyn sicrhau bod y Cyngor a Staff y Cyngor yn parhau i hyrwyddo'r Gymraeg. Yr un yw Polisi Iaith y Sir ac mae pob ysgol yng Ngwynedd yn ei gweithredu, disgwylir i holl sefydliadau addysg y sir adlewyrchu ac atgyfnerthu'r Polisi Iaith yn eu gweinyddiaeth, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol, yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd. Hefyd datblygwyd y Siarter Iaith gan y Cyngor fel cynllun penodol sydd yn weithredol ymhob ysgol yng Ngwynedd, er mwyn annog defnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg, hyrwyddo ymwybyddiaeth o Gymreictod a naws Gymreig yr ysgolion.

8 Addysgol	
<p>Tydi yr ysgolion heb gael unrhyw gyfnod estynedig o sefydlogrwydd yn yr arweinyddiaeth gyda deg a mwy o benaethiaid yn cael eu penodi. Gallwch ddeall bod hyn yn effeithio ar bob agwedd o weinyddiaeth yr ysgolion ac wrth gwrs yn gwneud i rieni golli hyder yn yr ysgol heb sôn am enw da yr ysgol yn y gymuned. Dros y cyfnod mae yn deg dweud bod adroddiadau eithaf beirniadol wedi eu rhoi gan yr arolygwyr yr helyw i wneud ag arweinyddiaeth. Dros y flwyddyn diwethaf mae yr ysgol wedi gwneud camau pendant i wella y sefyllfa ac mae adroddiadau Monitro GwE yn dystiolaeth o hynny a disgwylir i'r gwaith da yma gario ymlaen i'r dyfodol. Credwn bod y sylwadau uchod yn ddigon o resymau i ail-ystyried y penderfyniad i gau yr Ysgolion. Credwn na ddylid gwneud penderfyniad terfynol ar dynged yr Ysgolion heb o leiaf adael iddynt weithredu am o leiaf deunaw mis heb fygythiad o gau uwch eu pennau.</p>	<p>Mae'n wir i ddweud bod yr ysgol wedi ei chael hi'n anodd i ddenu a chadw Pennaeth parhaol, a bod hynny o bosib wedi cael effaith ar safonau. Oherwydd hyn mae GwE a'r Awdurdod Addysg wedi cynllunio cefnogaeth ddwys ar gyfer yr ysgolion o'r herwydd a chyda chefnogaeth parod y llywodraethwyr mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd. Serch hynny, mae sefyllfa bresennol yr ysgolion yn ddibynol ar barhau gyda'r lefel uchel o'r gynhafiaeth.</p>

ADRODDIAD I'R CABINET

3 Gorffennaf, 2018

Aelod Cabinet: Cyngorydd Gareth Thomas

Pwnc: Ad-drefnu darpariaeth Addysg Gynradd Dalgylch Bangor

Swyddog Cyswllt: Diane Jones – Arweinydd Prosiect Bangor

Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r Cabinet ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol a'r ymateb i'r sylwadau hynny, a phenderfynu os dylid:

- i. Cymeradwyo'r cynnig i gau Ysgolion Glanadda a Babanod Coedmawr ar 31 Awst 2020, a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol y Garnedd (yn ddarostyngedig i ddewis rhieni); a chynyddu capasiti Ysgol y Garnedd i 420.
 - ii. Cymeradwyo cyhoeddi rhybuddion statudol ar y cynnig yn (i) uchod yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.
-

Pwrpas yr adroddiad

Pwrpas yr adroddiad hwn yw adrodd i'r Cabinet yn dilyn cynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gau Ysgolion Glanadda a Babanod Coedmawr ar 31 Awst 2020, a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol y Garnedd (yn ddarostyngedig i ddewis rhieni); a chynyddu capasiti Ysgol y Garnedd i 420.

1. CYFLWYNIAD

Cyflwynwyd adroddiad gerbron y Cabinet ar 17 Ionawr 2017, a chymeradwywyd yr argymhelliad, 'gofyn am yr hawl i gychwyn trafodaethau lleol yn unol â'r adroddiad ynglŷn ag adolygu darpariaeth addysg gynradd ym Mangor'.

1.1 Mewn cyfarfod Cabinet Mawrth 2018 cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet lle cymeradwywyd y penderfyniad i:

Cynnal ymgynghoriad statudol, yn unol ag Adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, yn nalgylch Bangor ar gynnig i gau ysgolion Glanadda a Choedmawr ar y 31 Awst 2020, a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol y Garnedd (yn ddarostyngedig i ddewis rhieni); a chynyddu capasiti Ysgol y Garnedd i 420

1.2 Ar ddiwedd 2016, hysbysodd Llywodraeth Cymru fod cyfle i Awdurdodau Lleol gyda'r capasiti, i gyflawni prosiectau ychwanegol oddi mewn Band A Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif. Yn sgil hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod Gwynedd fel un o'r Awdurdodau mwyaf llwyddiannus yn cyflawni eu Rhaglen hyd yma ac rydym yn ymfalchio eu bod yn cyfeirio atom fel enghraifft o ymarfer da yn y maes hwn.

1.3 Sefydlwyd Panel Adolygu Dalgylch (PAD) Bangor yn ystod Mehefin 2017, a chynhaliwyd pedwar cyfarfod rhwng Mehefin a Thachwedd, gyda'r olaf ar y 29 Tachwedd 2017. Roedd cynrychiolwyr o

bob ysgol yn y dalgylch wedi cael gwahoddiad, gan gynnwys pennaeth, Cadeirydd Llywodraethwyr a rhiant llywodraethwyr. Rhoddwyd yn ogystal wahoddiad i'r Aelodau Lleol ac i gynrychiolaeth o'r Eglwys yng Nghymru (Esgobaeth Bangor) ac yr Eglwys Gatholig.

1.4 Yn ystod y cyfarfodydd, ystyriwyd sawl opsiwn ar gyfer addysg gynradd ym Mangor er mwyn sicrhau darpariaeth gynaliadwy i'r dyfodol gan ymateb yn benodol i'r angen am gynnydd yn y galw am lefydd yn ardal Penrhosgarnedd a gwella'r ddarpariaeth i ddysgwyr y ddinas.

1.5 Fel rhan o'r broses, adnabuwyd nifer o amcanion i'w hystyried ar gyfer y ddarpariaeth yn dalgylch Bangor sef:

- Sicrhau digon o lefydd ar gyfer pob plentyn yn y lleoliadau priodol;
- Sicrhau nad oes unrhyw ysgol yn orlawn;
- Sicrhau nad oes unrhyw ysgol wedi'i asesu yng nghyflwr C neu waeth;
- Lleihau llefydd gweigion sylweddol mewn ysgolion neu gynyddu effeithiolrwydd;
- Lleihau amrediad cost y pen ar gyfer darparu addysg yn y dalgylch;
- Sicrhau bod maint dosbarthiadau yn addas yn yr ysgolion cynradd;
- Sicrhau nad oes dros 25 disgybl o'r un oedran mewn un dosbarth;
- Sicrhau nad oes rhagor na 20 disgybl o oedrannau gwahanol mewn un dosbarth;
- Cysoni ansawdd addysg yn y dalgylch;
- Sicrhau nad oes unrhyw bennaeth yn treulio rhagor na 20% o'i amser yn dysgu;
- Datblygu'r defnydd o ysgolion fel adnodd cymunedol;
- Gwella'r ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn y dalgylch.

1.6 Cyd-destun pwysig yw maint y pecyn sydd ar gael i foderneiddio darpariaeth addysg gynradd yn ninas Bangor. Ers dechrau'r trafodaethau yn y dalgylch, mabwysiadwyd rhaglen o fuddsoddiad cyfalaf gan Lywodraeth Cymru dan faner Rhaglen Ysgolion yr 21ain. Byddai'n debygol o gynnwys buddsoddiad o gyfanswm £12.7 miliwn, gyda £6.35 miliwn o'r swm hwnnw yn grant gan Lywodraeth Cymru, mae ymrwymiad hefyd gan gwmni datblygu tai, fel rhan o gytundeb ar gyfer datblygiad newydd Goetre Uchaf ym Mhenrhosgarnedd.

2. Cefndir - dewis model ffafriedig

2.1 Trafodwyd nifer o opsiynau cyn i'r rhestr hir gael ei chreu. Yr athroniaeth y tu cefn i'r opsiynau oedd ystyried pob ysgol yn y dalgylch, gan geisio ffyrdd fyddai'n gwella a chynnal safon addysg yn y dalgylch.

- Opsiwn o gydweithio/ffedereiddio rhwng rhai neu holl ysgolion presennol heb gau ysgolion
- Opsiwn o gydweithio/ffedereiddio rhwng ysgolion yn dilyn cau rhai ysgolion
- Cau rhai ysgolion cynradd gan drosglwyddo disgyblion i ysgolion cyfagos heb fuddsoddiad cyfalaf na chydweithio rhwng yr ysgolion sy'n weddill
- Cau rhai ysgolion cynradd gan drosglwyddo disgyblion i ysgolion cyfagos heb fuddsoddiad cyfalaf, a sefydlu cydweithio rhwng yr ysgolion sy'n weddill
- Cau rhai ysgolion cynradd a sefydlu ysgol(ion) ardal yn dilyn buddsoddiad cyfalaf
- Sefydlu un ysgol 3-16 neu 3-18 ar un safle i holl ddisgyblion y dalgylch

2.3 Y prif faterion a nodwyd gan aelodau'r PAD oedd;

- Yr angen i unrhyw opsiwn gynnwys gwelliannau a chodi capasiti i rai adeiladau ysgolion Bangor
- Bod ystyriaeth yn cael ei roi i unrhyw effaith ar sefyllfa trafndiaeth ym Mhenrhosgarnedd
- Ystyriaeth i faterion ieithyddol
- Sicrhau trefniadau priodol ar gyfer plant Ysgol Babanod Coedmawr ac Ysgol Glanadda
- Ystyriaeth i unrhyw safleoedd addas ar gyfer datblygu sydd ar gael ym Mangor.

2.4 Yn dilyn trafodaethau gyda'r aelodau PAD, crëwyd rhestr hir o opsiynau. Er bod yr achos dros newid wedi ei sefydlu, mae'r model 'Status Quo' yn cael ei gynnwys at ddiben cymharu:


Status Quo	Gwneud Dim
Opsiwn 1	Ymestyn Ysgol Y Faenol i gynyddu'r capasiti o 186 i 270. Cau Ysgol Coedmawr, Glanadda a'r Garnedd. Creu ysgol newydd ar 2 safle (babanod ac iau) gyda'r ysgol babanod ar safle Coedmawr (180) a'r iau ar safle'r Garnedd (240). Cynyddu capasiti Glancegin i dderbyn plant cyfnod sylfaen ychwanegol. Gwelliannau i rannau adeilad Ysgol Hirael. Ystyriaeth i'r ddarpariaeth Uwchradd gan gynnwys cyflwr yr adeiladau presennol ac adeilad newydd ar gyfer Ysgol Ein Harglwyddes.
Opsiwn 2	Cau Ysgol Coedmawr, Glanadda, Y Faenol a'r Garnedd. Datblygu ysgol newydd gyda chapasiti o 690. Cynyddu capasiti Glancegin i dderbyn plant cyfnod sylfaen ychwanegol. Gwelliannau i rannau adeilad Ysgol Hirael. Ystyriaeth i'r ddarpariaeth Uwchradd gan gynnwys cyflwr yr adeiladau presennol ac adeilad newydd ar gyfer Ysgol Ein Harglwyddes.
Opsiwn 3	Ymestyn Y Faenol i gynyddu'r capasiti o 186 i 315. Ysgol newydd i'r Garnedd gan gynyddu'r capasiti o 210 i 420. Cau Ysgol Coedmawr a Glanadda. Cynyddu capasiti Glancegin i dderbyn plant cyfnod sylfaen ychwanegol. Gwelliannau i rannau adeilad Ysgol Hirael. Ystyriaeth i'r ddarpariaeth Uwchradd gan gynnwys cyflwr yr adeiladau presennol ac adeilad newydd ar gyfer Ysgol Ein Harglwyddes.
Opsiwn 4	Adeilad newydd i'r Garnedd, capasiti o 350 i 380. Ysgol newydd i Coedmawr a Glanadda i gynnwys llefydd i'r plant newydd o dai Pen y Ffridd (Goetre Uchaf). Ymestyn y Faenol i tua 250 a datrys problemau traffig. Cynyddu capasiti Glancegin i dderbyn plant cyfnod sylfaen ychwanegol. Gwelliannau i rannau adeilad Ysgol Hirael. Ystyriaeth i'r ddarpariaeth Uwchradd gan gynnwys cyflwr yr adeiladau presennol ac adeilad newydd ar gyfer Ysgol Ein Harglwyddes.
Opsiwn 5	Un ysgol gydol oes ym Mangor (2,746 + 306). Cau pob ysgol gynradd ac uwchradd
Opsiwn 6	Uno ysgol Tryfan a Friars a chreu ysgol newydd cyfrwng Cymraeg (1,347 + 306) gan godi ysgol gynradd newydd ar safle cyfredol Tryfan (420) ac ymestyn Ysgol Faenol (270). Cau Ysgol Coedmawr, Glanadda a Garnedd. Cynyddu capasiti Glancegin i dderbyn plant cyfnod sylfaen ychwanegol. Gwelliannau i rannau adeilad Ysgol Hirael. Adeilad newydd ar gyfer Ysgol Ein Harglwyddes.
Opsiwn 7	Cyfuno Ysgol Tryfan a Dyffryn Ogwen ar safle newydd (700 + 150?). Ysgol gynradd newydd ar safle cyfredol Tryfan (420) ac ymestyn Ysgol Faenol (270). Cau Ysgol Coedmawr, Glanadda a Garnedd. Cynyddu capasiti Glancegin i dderbyn plant cyfnod sylfaen ychwanegol. Gwelliannau i rannau adeilad Ysgol Hirael. Adeilad newydd ar gyfer Ysgol Ein Harglwyddes.
Opsiwn 8	Cau Glanadda a Coedmawr. Estyniad i'r Faenol (270). Adeilad newydd i'r Garnedd (380-420 o blant). Adeilad newydd i Ein Harglwyddes (120) yn ystod yr ail ffes (cyllid

	yr Eglwys). Creu cyfleusterau cymunedol chwaraeon i'w rhannu gan y Garnedd, Friars, Cae Top (fel Parc Eirias). Cynyddu capasiti Glancegin i dderbyn plant cyfnod sylfaen ychwanegol. Gwelliannau i rannau adeilad Ysgol Hirael. Ystyriaeth i'r ddarpariaeth Uwchradd gan gynnwys cyflwr yr adeiladau presennol.
Opsiwn 9	Ail adeiladu Ysgol Ein Harglwyddes ar yr un safle (120). Rhoi estyniad i Glanadda (90) er mwyn cyfuno gydag Ysgol Coedmawr. Ail adeiladu Coedmawr er mwyn gwneud lle i ormodedd y Faenol a'r Garnedd (240). Parc Cegin? (digon o le) . Ail gyflwyno gwasanaeth bws ar gyfer disgyblion. Rhaid i'r ysgolion fod yn ddigon mawr ar gyfer twf poblogaeth. Cynyddu capasiti Glancegin i dderbyn plant cyfnod sylfaen ychwanegol. Gwelliannau i rannau adeilad Ysgol Hirael. Ystyriaeth i'r ddarpariaeth Uwchradd gan gynnwys cyflwr yr adeiladau presennol.
Opsiwn 10	Cynyddu capasiti'r Faenol (270). Garnedd i safle newydd a chodi capasiti (330). Addasu safle Glanadda i dderbyn plant Coedmawr (90). Cynyddu capasiti Glancegin i dderbyn plant cyfnod sylfaen ychwanegol. Gwelliannau i rannau adeilad Ysgol Hirael. Ystyriaeth i'r ddarpariaeth Uwchradd gan gynnwys cyflwr yr adeiladau presennol ac adeilad newydd ar gyfer Ysgol Ein Harglwyddes.
Opsiwn 11	Ysgol newydd i'r Faenol (270). Garnedd i safle newydd a chynyddu'r capasiti (420). Cau Coedmawr a Glanadda. Cynyddu capasiti Glancegin i dderbyn plant cyfnod sylfaen ychwanegol. Gwelliannau i rannau adeilad Ysgol Hirael. Ystyriaeth i'r ddarpariaeth Uwchradd gan gynnwys cyflwr yr adeiladau presennol ac adeilad newydd ar gyfer Ysgol Ein Harglwyddes.
Opsiwn 12	Ymestyn y Faenol i gynyddu'r capasiti o 186 i 360. Ysgol newydd i'r Garnedd gan gynyddu'r capasiti o 210 i 330. Cau Ysgol Coedmawr a Glanadda gan ddanfôn plant i Faenol. Cynyddu capasiti Glancegin i dderbyn plant cyfnod sylfaen ychwanegol. Gwelliannau i rannau adeilad Ysgol Hirael. Ystyriaeth i'r ddarpariaeth Uwchradd gan gynnwys cyflwr yr adeiladau presennol ac adeilad newydd ar gyfer Ysgol Ein Harglwyddes.

- 2.5** Yn dilyn ystyriaeth, crëwyd rhestr fer o opsiynau oedd yn cynnwys yr opsiynau oedd wedi cyfarch y mwyafrif i'r amcanion buddsoddi yn llawn, ac oedd yn bosib eu cyflawni oddi fewn cyfyngiadau ystyriaethau ymarferol. Y tri opsiwn (yn ychwanegol i'r status quo) a ddaeth i'r brig oedd opsiwn 3, opsiwn 8, ac opsiwn 10. Trafodwyd yr opsiynau yma yn ystod PAD 3, ac anfonwyd holiadur i aelodau'r PAD i gyflwyno sylwadau'r ysgolion perthnasol ynglŷn â'r opsiynau arfaethedig ar gyfer adnabod opsiwn ffafriedig.
- 2.6** Gwerthuswyd yr opsiynau gwahanol a gellir gweld cymhariaeth bellach o'r modelau yn erbyn ffactorau a chytunwyd yn ystod y cyfarfod PAD cyntaf. Gellir gweld y gwerthusiad opsiynau llawn yn **Atodiad 3**
- 2.7** Adroddwyd hyn i'r Cabinet 13 Mawrth 2018 lle cymeradwywyd yr argymhellion i gynnal cyfnod o ymgynghori statudol ar **opsiwn 3**, sef i gau ysgolion Glanadda a Babanod Coedmawr ar 31 Awst 2020, a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol y Garnedd (yn ddarostyngedig i ddewis rhieni); a chynyddu capasiti Ysgol y Garnedd i 420.

3. Y Cynnig

- 3.1** Mae'r cynnig hwn yn golygu y bydd Ysgol Babanod Coedmawr ac Ysgol Glanadda yn cau a bod adeilad newydd yn cael ei adeiladu ar gyfer ysgol y Garnedd.



- 3.2** Y nod yw bydd y buddsoddiad arfaethedig yn cyfarch dyheadau strategol Cyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru i ddarparu addysg gynaliadwy, byddai hyn yn cynnwys:

- Gwell cysondeb yn safon ac ansawdd yr addysg a ddarperir yn y dalgylch
- Gwella effeithlonrwydd stad yr ysgol, gan leihau nifer o adeiladau mewn cyflwr gwael
- Gwneud cyfraniad sylweddol tuag at leihau nifer o lefydd gweigion
- Rhyddhau cyllideb i'w wario ar blant o fewn y gyfundrefn addysg yn hytrach nag adeiladau
- Cysoni nifer yr ysgolion i gyfarch y galw
- Rhesymoli cost fesul disgybl mewn ysgolion. Gan leihau'r gost fesul disgybl i hafal neu well na'r cyfartaledd Sirol o £3,777 i'r Cynradd.
- Gwell cysondeb mewn maint dosbarthiadau a lleihau'r ystod oedran o fewn dosbarthiadau ysgolion cynradd
- Gwella'r amgylchedd ddysgu i fwy o ddisgyblion a chynyddu'r nifer disgyblion a fydd yn elwa o amgylchfyd ddysgu 21ain Ganrif
- Sicrhau arweinyddiaeth a rheolaeth gadarn

3.3 Fel rhan o'r cynnig arfaethedig i ad-drefnu ysgolion cynradd Bangor, bydd ystyriaeth lawn yn cael ei roi i Bolisi Iaith yr Adran Addysg. Mae'r polisi yn gosod y nod uchelgeisiol o sicrhau bod holl ddisgyblion y Sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg, er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Cydwedda hyn yn dda gyda phrif nod Cynllun Strategol y Gymraeg sef sicrhau datblygiad y Gymraeg fel pwnc a chyfrwng dysgu o oedran cyn-ysgol ymlaen yn ogystal â hyrwyddo'r defnydd a wna ein plant a'n pobl ifanc o'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol.

3.4 Maint dosbarthiadau ac amrediad oedran o fewn dosbarthiadau

Mae'r Adran Addysg yn cynllunio i sicrhau trefniadau sydd yn galluogi maint dosbarthiadau priodol ar gyfer ysgolion y Sir. Byddai cynyddu maint Ysgol Y Garnedd i 420 yn golygu strwythur a fyddai'n gynnwys dau ddosbarth ar gyfer pob oedran h.y. mynediad â lle i 60 o blant ym mhob grŵp blwyddyn, rhwng grwpiau Derbyn a Blwyddyn Chwech. Rhagwelir y bydd pegynau amrediad oedran o fewn dosbarthiadau sydd yn bodoli yn rhai ysgolion yn diflannu, sydd yn fodd o leddfuf'r heriau a phroblemau addysgu a dysgu effeithiol y gall ddigwydd pan ceir ystod oedran eang mewn un dosbarth.

3.5 Niferoedd disgyblion a llefydd gweigion

Mae niferoedd disgyblion yn yr ysgolion wedi newid yn sylweddol ers 1980, gyda gostyngiad o 62% yn Ysgol Babanod Coedmawr a 68% yn Ysgol Glanadda. I'r gwrthwyneb, mae niferoedd Y Garnedd wedi cynyddu 55% yn yr un cyfnod.

4. Yr ymgynghoriad statudol

4.1 Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a gofynion statudol y Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013), cynhaliwyd cyfnod ymgynghori statudol ar y cynnig gydag ymgynghorai perthnasol rhwng 10 Ebrill 2018 a 13:00 o'r gloch ar 22 Mai 2018.

4.2 Lluniwyd dogfen ymgynghori statudol yn unol â gofynion ac arweiniad y Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013) dosbarthwyd copi o'r ddogfen i'r holl ymgynghorai perthnasol, unai ar ffurf copi caled neu drwy anfon e-bost oedd yn cynnwys linc at dudalen arbennig ar wefan y Cyngor (www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg)

4.3 Anfonwyd copïau caled o'r ddogfen ymgynghori at y 3 ysgol sydd yn rhan o'r ymgynghoriad, gan wneud cais i'r penaethiaid eu dosbarthu i rieni/gwarchodwyr pob disgybl, aelod o staff ac aelodau corff llywodraethwyr yr ysgolion.

4.4 Cyhoeddwyd pecyn cefndirol yn ogystal, oedd yn cynnwys asesiadau effaith ar y cynnig ar yr iaith, y gymuned a chydarddoldeb. Dosbarthwyd copïau caled o'r pecynnau cefndirol a'r ddogfen ymgynghori i holl ysgolion y Dalgylch, llyfrgelloedd lleol, Canolfan Hamdden Bangor a Siop Gwynedd Dolgellau, Pwllheli a Caernarfon, fel eu bod ar gael i'w harchwilio gan unrhyw aelod o'r cyhoedd. Roedd y ddogfen hefyd ar gael i'w lawr lwytho oddi ar wefan y Cyngor.

4.5 Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cynhaliodd swyddogion Cyngor Gwynedd sesiynau "galw heibio" er mwyn trafod y cynnig gyda'r llywodraethwyr, staff addysgu ac ategol, rhieni/gwarchodwyr a'r cyhoedd. Fel rhan o'r sesiynau cyflwynwyd arddangosfa o'r wybodaeth yn y ddogfen ymgynghorol ac roedd swyddogion o adrannau perthnasol (e.e. addysg, eiddo, Adnoddau Dynol ayyb) ar gael i

egluro ac ymateb i ymholiadau. Roedd yna hefyd gyfle i rai oedd yn mynychu dderbyn copi caled o unrhyw ddogfennaeth berthnasol i'r cynnig ac i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig. Mynychodd 33 o bobl y sesiynau galw heibio.

Roedd yr amserlen ar gyfer y sesiynau fel y ganlyn:

Dyddiad	Amser	Lleoliad
Dydd Llun 30 Ebrill 2018	16:00 – 20:00	Neuadd Reichel, Ffordd Ffriddoedd, Bangor, LL57 2TR
Dydd Mawrth 1 Mai 2018	14:00 – 18:00	Neuadd Reichel, Ffordd Ffriddoedd, Bangor, LL57 2TR

- 4.6** Yn ogystal, crëwyd dogfen ymgynghorol i blant cynradd gyda holiaduron cysylltiedig. Trefnwyd bod hwylusydd yn ymweld ag ysgolion oedd yn rhan o'r ymgynghoriad i gynnal sesiynau gyda'r disgyblion i ganfod eu barn drwy ymgynghori gyda phlant Cyngor Ysgol y Garnedd a Chyngor Ysgol Glanadda ar ran Ffederasiwn Bro Ddewi. Mae dadansoddiad yr hwylusydd o'r sesiynau hyn ar gael yn **atodiad 2** yr adroddiad yma.

Yn ychwanegol, derbyniwyd holiaduron ychwanegol gan Ysgol y Garnedd, yn unol â sesiwn y cynhaliwyd yn uniongyrchol gyda'r Pennaeth a disgyblion.

- 4.7** Derbyniwyd **68** ymateb i'r ymgynghoriad statudol gan gynnwys ymatebion gan ddisgyblion, staff, llywodraethwyr, preswylwyr a rhieni unigol, yn ogystal â'r cyrff canlynol.

- Estyn
- NASUWT
- Corff Llywodraethol Ysgol y Garnedd
- Staff Ysgol y Garnedd
- Staff Ysgol Glanadda a Babanod Coedmawr
- Cynrychiolwyr Ysgol Ein Harglwyddes
- Cynrychiolwyr Ysgol Glanadda ac Ysgol Babanod Coedmawr

- 4.8** Dyma dabl sy'n nodi'r nifer o ymatebion a dderbyniwyd yn ôl eu cysylltiad gydag ysgol benodol

Nifer Yr ymatebion Nodwyd Cysylltiad gydag Ysgol.						
Ysgol y Garnedd	Ysgol Babanod Coedmawr/Glanadda	Ysgol Ein Harglwyddes	Ysgol Gancegin	Ysgol y Faenol	Ysgol Hiracl	Ysgol Llandygai
15	6*	37*		1*	1*	
Ysgol Cae Top	Ysgol Tryfan	Ysgol Friars	Arall			
	1*	3*	10			

* Sylwer bod rhai unigolion wedi ymateb ar ran mwy nag un ysgol

5. Sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol

5.1 Pwrpas y rhan yma o'r adroddiad yw cyflwyno rhai o'r prif bwyntiau a ddaeth i'r amlwg yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol. Nid oes posib ymateb i bob sylwad yn fanwl yng nghorff yr adroddiad hwn, fodd bynnag, ynghlwm, ceir copi o dabl sy'n cynnwys yr holl sylwadau yn ogystal ag ymateb y Cyngor. Ceir y wybodaeth yma i gyd yn **atodiad 1** yr adroddiad yma.

5.2 Fel y nodir uchod, mae dadansoddiad Cyngor Gwynedd o'r sylwadau a dderbyniwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad wedi ei gynnwys gyda'r adroddiad hwn. Gellir gweld copiâu llawn/gwreiddiol o'r ymatebion ar www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg - mae'r wybodaeth bersonol ar rai o'r ymatebion wedi eu duo er mwyn cydymffurfio a gofynion y Ddeddf Diogelu Data 1998.

5.3 Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd yn manylu ar y materion a ganlyn

- Cefnogaeth i'r cynnig
- Materion trafndiaeth/traffig
- Materion leithyddol
- Y broses ymgynghori/dogfen ymgynghori/Y Cynnig
- Addysgol
- Dyluniad ac adnoddau'r adeilad newydd
- Arall (staffio / cyllidol)
- Estyn

5.4 Cefnogaeth i'r cynnig

5.4.1 Derbyniwyd nifer o sylwadau yn croesawu'r buddsoddiad, gyda sawl un yn datgan cefnogaeth i'r cynlluniau arfaethedig ar gyfer adeilad newydd Ysgol y Garnedd. Yn benodol, mynegwyd sawl sylw yn croesawu adeilad newydd ar gyfer Ysgol y Garnedd, megis: *"Hapus iawn fod Ysgol y Garnedd yn cael Ysgol newydd, mae'n amlwg o'r dystiolaeth a gyflwynwyd bod angen adeilad newydd ar Ysgol y Garnedd"*. Nodwyd sylw yn ogystal fod y prosiect yn un positif i'r ardal leol, ac yn y tymor hir bydd yn lwyddiant.

5.4.2 Fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori statudol, mae'r Cyngor o'r farn y bydd buddsoddiad arfaethedig yn cyfarch dyheadau strategol Cyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru i ddarparu darpariaeth addysg, byddai hyn yn cynnwys:

- Gwell cysondeb yn safon ac ansawdd yr addysg a ddarperir yn y dalgylch
- Gwella effeithlonrwydd stad yr ysgol, gan leihau nifer o adeiladau mewn cyflwr gwael
- Gwneud cyfraniad sylweddol tuag at leihau nifer o lefydd gweigion
- Rhyddhau cyllideb i'w wario ar blant o fewn y gyfundrefn addysg yn hytrach nag adeiladau
- Cysoni nifer yr ysgolion i gyfarch y galw
- Rhesymoli cost fesul disgybl mewn ysgolion. Gan leihau'r gost fesul disgybl i hafal neu well na'r cyfartaledd Sirol o £3,777 i'r Cynradd.
- Gwell cysondeb mewn maint dosbarthiadau a lleihau'r ystod oedran o fewn dosbarthiadau ysgolion cynradd
- Gwella'r amgylchedd ddysgu i fwy o ddisgyblion a chynyddu'r nifer disgyblion a fydd yn elwa o amgylchfyd ddysgu 21ain Ganrif
- Sicrhau arweinyddiaeth a rheolaeth gadarn

5.4.3 Fel rhan o ymateb a dderbyniwyd gan Estyn, nodwyd byddai'r cynnig o leiaf yn debygol o gynnal y safonau presennol o ran addysg, darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth.

5.5 Materion trafndiaeth/ traffig

5.5.1 Derbyniwyd sawl sylw yn pryderu am faterion traffig ar ffordd Penrhos, gan nodi fod y lon yn beryglus ac yn hynod o brysur yn ystod oriau penodol. Mae'r Cyngor yn cytuno fod problemau traffig yn yr ardal ar hyn o bryd a bod angen i'r cynllun hwn sicrhau fod y llif traffig yn cael ei reoli'n well nag y mae ar hyn o bryd.

5.5.2 Mae arolygon megis arolwg o sut mae disgyblion yn teithio i'r ysgol wedi ei gynnal. Mae hefyd arolygon traffig wedi cael eu cynnal ar Ffordd Penrhos. Bydd y tîm dylunio yn gweithio i liniaru risgiau llif traffig, cerddwyr a beicwyr a chreu llwybrau diogel i'r Ysgol. Eisoed mae nifer o opsiynau yn cael eu datblygu a fydd yn galluogi tynnu traffig oddi ar y briffordd yn gyflym a hwylus fel bo modd osgoi tagfeydd ar Ffordd Penrhos. Bydd y cynllun hwn felly yn gyfle i wella ar y sefyllfa sydd yn bodoli ar hyn o bryd.

5.6 Materion Ieithyddol

5.6.1 Cafwyd sylwadau oedd yn nodi pryder am barhad ethos y Gymraeg yn Ysgol y Garnedd, e.e. *bod sefyllfa'r Gymraeg yn ardal Bangor yn fregus, ac mae'n hanfodol nad yw'r ad-drefnu arfaethedig yn amharu ar allu'r ysgol i sicrhau fod plant yn llwyddo'n academaidd a chymdeithasu'n trwy'r Gymraeg yn yr ysgol a thu allan*. Cydnabyddir bod newid arferion iaith yn broses sy'n digwydd dros amser, gyda nifer o ffactorau gwahanol yn gyfrifol am ddylanwadu ar arferion iaith unigolion. Serch hynny, mae'n rhesymol i ddisgwyl y bydd disgyblion newydd o deuluoedd di-Gymraeg yn manteisio o ddiwylliant Cymreig Ysgol y Garnedd sydd â phrofiad llwyddiannus o hybu a defnyddio'r iaith Gymraeg o fewn yr ysgol.

5.6.2 Rhaid cydnabod bod Gwynedd wedi arwain yn genedlaethol ar annog a dylanwadu ar ddefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg drwy gyfrwng y Siarter Iaith sydd yn weithredol ymhob ysgol yng Ngwynedd, ac yn gynllun sydd bellach wedi ei ledaenu'n genedlaethol.

5.6.3 Yr un yw'r Polisi Iaith ar gyfer holl ysgolion cynradd Gwynedd. O edrych ar y dystiolaeth, ac yn unol â'r Polisi Iaith, disgwylir i gyfrwng y ddarpariaeth gwricwlaidd fod yr un fath ar draws yr ysgolion cynradd, ac mae holl ysgolion cynradd Bangor (ar wahân i Ysgol Ein Harglwyddes) yn llwyddo i gael canran sylweddol o'r disgyblion i gyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg (iaith gyntaf) yn y Cyfnod Sylfaen a CA2.

Nod y Polisi Iaith "*yw sicrhau bod holl ddisgyblion y sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg*". Cydwedda hyn yn dda gyda phrif nod Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg sef sicrhau datblygiad y Gymraeg fel pwnc a chyfrwng dysgu o oedran cyn-ysgol ymlaen yn ogystal â hyrwyddo'r defnydd a wna ein plant a'n pobl ifanc o'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol. Er mwyn gwireddu'r rhaglen uchelgeisiol hon, disgwylir i bob sefydliad roi sylw i'r materion a ganlyn.

- Gosod sylfaen gadarn yn y Gymraeg yn y Blynnyddoedd Cynnar, gan sicrhau bod disgyblion o gefndir Saesneg yn cael y cyfle i ddysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosibl.
- Yn y Cyfnod Sylfaen, adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cyfnod meithrin a derbyn drwy barhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg, a chychwyn ar y broses o ddatblygu eu

sgiliau yn y Saesneg. Yn ymarferol, golyga hyn y bydd y mwyafrif o'r ysgolion yn cychwyn cyflwyno'r Saesneg fel pwnc yn y tymor olaf ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, gan roi sylw i ddatblygu sgiliau darllen, siarad ac ysgrifennu yn yr iaith honno. Y Gymraeg fydd iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.

- Yn CA2, parhau i ddatblygu meistrolaeth disgyblion ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith. Asesir cynnydd disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg ar ddiwedd y cyfnod allweddol.
- Yn CA3, sicrhau bod pob disgybl sydd wedi cyrraedd lefel 3+ ar ddiwedd CA2 yn parhau i ddilyn Cymraeg iaith Gyntaf er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad priodol.
- Yn CA4, sicrhau bod pob disgybl yn astudio'r Gymraeg fel pwnc hyd at ddiwedd B11 ac yn cael asesiad yn y Gymraeg ar ddiwedd CA4.
- Yn CA3 a CA4, defnyddio'r wybodaeth am gyflawniad blaenorol i sicrhau bod pob disgybl yn parhau i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg trwy ddefnyddio'r ddwy iaith yn gyfrwng dysgu.
- Sicrhau bod disgyblion sy'n ddysgwyr y Gymraeg yn CA2 a CA3 yn dysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosibl ac yn defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu.
- Gwella gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o nodweddion diwylliannol, manteision economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru.
- Datblygu'r disgyblion i fod yn ddinasyddion cyfrifol fel eu bod yn cyfrannu'n arwyddocaol i'r gymdeithas ddwyieithog maent yn rhan ohoni.

5.6.4 Derbyniwyd ymateb isod gan Estyn yn gysylltiedig ar asesiad effaith ieithyddol:

“Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth fanwl iawn i'r effaith ar y Gymraeg drwy ddadansoddi data'r Siarter Iaith yn llawn a thrwy ystyried data cyfrifiad 2011 i edrych ar broffil ieithyddol wardiau Bangor a Pentir. Mae'n anodd darogan yn fanwl gywir unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg, ond mae'n rhesymol i ddisgwyl y bydd y disgyblion newydd o deuluoedd di-gymraeg yn cael eu dylanwadu gan ddiwylliant Cymreig Ysgol y Garnedd sydd â phrofiad llwyddiannus o hybu a defnyddio'r iaith Gymraeg o fewn yr ysgol.”

5.6.5 Yn unol ar asesiad effaith ieithyddol, gweler bod (yn ogystal i Ysgol y Garnedd) canran uchel iawn o blant Ysgol Glanadda yn meddwl ei bod yn bwysig iawn siarad Cymraeg. Gweler y tabl isod:

Canran y plant sy'n meddwl ei bod hi'n bwysig siarad Cymraeg

Dw i'n meddwl ei bod hi'n bwysig siarad Cymraeg	Pwysig iawn	Pwysig	Gweddol bwysig	Ddim yn bwysig	Ddim yn bwysig o gwbl
Ysgol Y Garnedd	84.4%	11.9%	3.8%	0%	0%
Ysgol Glanadda	95.2%	4.8%	0%	0%	0%

5.7 Y broses ymgynghori/dogfen ymgynghori / Y Cynnig

5.7.1 Derbyniwyd rhai sylwadau ynglŷn â'r broses ymgynghori, yn benodol ynglŷn â chynnwys y ddogfen ymgynghori statudol. Mae'r cywiriadau perthnasol wedi eu nodi yn y tabl ymatebion yn **atodiad 1** (pwynt 7.1 - 7.7).

5.7.2 Cafwyd sylwadau yn ymwneud a'r cynnig arfaethedig oedd yn destun yr ymgynghoriad gyda rhai ymatebwyr yn nodi eu bod yn ffafrio opsiwn 10. Mewn ymateb i'r sylwadau hynny, nodwyd fod y Cyngor wedi ystyried ystod o wahanol opsiynau cyn penderfynu cynnal ymgynghoriad statudol ar opsiwn 3. Gwerthuswyd holl opsiynau'r rhestr hir er mwyn cymharu prif fanteision ac anfanteision yr opsiynau oedd dan ystyriaeth. Ar sail canlyniadau'r gwerthusiad hwnnw, daeth i'r amlwg mai opsiwn 3 fyddai'n ateb y gofynion ar gyfer darpariaeth addysg gynradd ym Mangor, yn unol â'r ffactorau allweddol a flaenoriaethwyd gan y Panel Adolygu Dalgylch. Nodwyd yn ogystal y byddai opsiwn 3 yn golygu fod mwy o ddisgyblion yn debygol o fanteisio o amgylchedd ddysgu ac adnoddau o'r radd flaenaf.

5.8 Addysgol

5.8.1 Derbyniwyd sylwadau yn ymwneud a maint arfaethedig Ysgol y Garnedd petai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo i adeiladu Ysgol newydd gyda capasiti o 420. Mewn ymateb i'r sylwadau yma, mae diffyg capasiti a chyflwr gwael adeilad presennol Ysgol y Garnedd wedi bod yn un o'r prif yrwyr dros yr angen i ad-drefnu yn ardal Bangor. Mae'r Adran Addysg o'r farn bod y capasiti dan sylw yn briodol ac yn cynnig gwell cyfleoedd i hwyluso rhaniad dosbarthiadau'r ysgol newydd, yn ogystal ag yn ymateb i'r gofyn cynyddol am lefydd a ragwelir i'r dyfodol.

5.8.2 Cafwyd rhai sylwadau yn nodi pryderon am drefniadau mynediad ar gyfer y cynnig arfaethedig. Mewn ymateb, os gweithredir y cynnig i gau ysgolion Glanadda a Babanod Coedmawr, bydd yr awdurdod yn cynnig lle i ddisgyblion yr ysgolion presennol (yn ddarostyngedig i ddewis rhieni) yn ysgol Y Garnedd. Bwriedir defnyddio'r un dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau, a'r un dyddiad penderfyniad ar gyfer yr holl geisiadau a throsglwyddiadau.

5.9 Dyluniad ac adnoddau'r adeilad newydd

5.9.1 Derbyniwyd sawl sylw yn ymwneud a'r dyluniad ac adnoddau fydd ar gael fel rhan o adeilad newydd Ysgol y Garnedd.

5.9.2 Roedd sawl unigolyn yn pryderu y byddai cae chwarae'r ysgol yn rhy bell o adeilad yr ysgol. Nodwyd hefyd pryder nad oedd toiledau wedi ei ddarparu ar y caeau chwarae ar gyfer y disgyblion. Mewn ymateb i'r sylwadau, nodwyd bod y tîm dylunio'n rhoi ystyriaeth i'r toiled a'r cae. Nodwyd yn ogystal fod y cynllun yn cynnwys sawl man chwarae ger yr adeilad ar gyfer disgyblion Ysgol y Garnedd. Dim ond at y cae chwarae ffurfiol fydd angen cerdded ac mae wedi ei leoli o fewn pellter rhesymol, a bydd yn debyg i'r sefyllfa mewn nifer o ysgolion ar hyd a lled y sir.

5.9.3 Cafwyd rhai sylwadau yn nodi pryder ynglŷn â'r cynllun ar gyfer maes parcio'r adeilad newydd, a'r angen iddo fod yn agos at yr adeilad er mwyn hwyluso cludo adnoddau. Bwriedir lleoli maes parcio dynodedig ar gyfer staff o fewn pellter rhesymol. Nodwyd yn ogystal y bydd ardaloedd dadlwytho wedi eu lleoli ger adeilad yr ysgol.

5.9.4 Yn ogystal, derbyniwyd sylwadau ynglŷn â dyluniad y man gollwng plant, ynghyd ag un sylwad yn gwneud cais am warchod defnydd y maes parcio ar gyfer rhieni Ysgol y Garnedd yn unig. Bydd y mater hwn yn cael ei ystyried fel rhan o'r gwaith dylunio ac mae bwriad i osod arwyddion yn y maes parcio er mwyn nodi unrhyw gyfyngiadau parcio.

5.9.5 Derbyniwyd dau sylwad yn nodi'r angen am ardal ddysgu allanol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Mewn ymateb i'r sylwad, nodwyd fod y sylwad wedi ei ddwyn i sylw'r tîm dylunio a bod y cynllun presennol yn cynnwys gosod canopi ac ardal wedi'i ffensio ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.

5.10 Arall

5.10.1 Derbyniwyd rhai sylwadau yn ymwneud a materion staffio, mae rhai o'r ymatebion gan staff, yn nodi pryderon am swyddi petai'r cynnig arfaethedig yn cael ei gymeradwyo i gau Ysgol Babanod Coedmawr ac Ysgol Glanadda. Derbyniwyd hefyd ymateb yn ymwneud a staffio Ysgol y Garnedd yn dilyn agoriad yr adeilad newydd.

5.10.2 Oherwydd mae'r cynnig yn cynnwys adeilad newydd (a chynyddu capasiti) yn unig ar gyfer Ysgol y Garnedd, yna ni ragwelir y byddai unrhyw newid i strwythur staffio'r ysgol tu hwnt i'r angen i addysgu nifer uwch o blant. Bydd unrhyw benderfyniad yn ymwneud a phrosesau penodi yn fater i'r corff llywodraethol.

5.10.3 Os bydd ysgolion Babanod Coedmawr a Glanadda yn cau, yna bydd swyddi presennol y staff yn dod i ben. Bydd y Cyngor yn gwneud bob ymdrech posib i geisio rhoi cymorth i staff i'w ad leoli. Yn ogystal, hawl corff llywodraethol unigol unrhyw ysgol yw penderfynu ar bwy maent yn eu penodi i'w hysgolion, felly nid yw'r Cyngor mewn sefyllfa i fynnu bod corff llywodraethol yn penodi staff penodol.

5.10.4 Derbyniwyd rhai sylwadau mewn perthynas â materion cyllidol, yn cynnwys y mater o gost y pen disgyblion. Parthed sail cyfanswm dyraniad ysgolion, mae gwahaniaeth 'cost y disgybl' yn gallu amrywio o ysgol i ysgol oherwydd amryw o ffactorau gan gynnwys, gwarchodaeth lleiafswm staffio, ADY, nifer disgyblion sy'n gymwys i ginio am ddim.

5.11 Ymatebion i'r ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc

Fel y nodwyd ym mharagraff 4.6 uchod, cynhaliwyd sesiynau ymgynghori gyda chynrychiolaeth o ddisgyblion cynradd sydd yn destun i'r ymgynghoriad statudol hwn. Trefnwyd bod hwylusydd plant a phobl ifanc yn ymweld â'r ysgolion i gynnal sesiynau gyda'r disgyblion i ganfod eu barn. Mae dadansoddiad yr hwylusydd o'r sesiynau hyn ar gael yn **atodiad 2** yr adroddiad yma.

Dyma'r prif bwyntiau gododd yn ystod yr ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc:

Ysgol Y Garnedd	Ysgol Glanadda
Y rhan fwyaf o blaid y newid.	Y rhan fwyaf yn erbyn y newid.
Bod efo ffrindiau yn bwysig iawn.	Poeni beth fyddai'n digwydd i'r ysgol a'r athrawon.
Awyddus i gael pob cyfle posib efo'r offer / Adnoddau gorau posib.	Awyddus i gael pob cyfle posib efo'r offer / Adnoddau gorau posib.
Ehangu ar y cyfleoedd sydd ar gael.	Poeni am draffig oherwydd y lleoliad a'r niferoedd.

5.12 Estyn

5.12.1 Nodwyd sylwadau a dderbyniwyd gan Estyn fel rhan o'r ymgynghoriad. Mynegwyd:

“wrth benderfynu ar y cynnig hwn, mae'r cynigiwr wedi ystyried yn fanwl deuddeg opsiwn gwahanol ar gyfer ad-drefnu addysg yn ninas Bangor. Mae'r cynigiwr wedi gwerthuso'r opsiynau yn deg yn erbyn manteision ac anfanteision nifer o griteria, yn cynnwys; sicrhau digon o lefydd ar gyfer pob disgybl yn y lleoliad priodol, lleihau llefydd gweigion, lleihau amrediad cost y pen, sicrhau maint addas i ddosbarthiadau, sicrhau nad yw penaethiaid yn treulio nwy na 20% o'u hamser yn addysgu a datblygu defnydd yr ysgol yn y gymuned.”

“Mae'r cynigiwr wedi darparu tablau yn dangos canran y disgyblion sy'n cyflawni'r deilliant disgwylidig yng nghyfnod allweddol 2 ar gyfer Ysgol y Garnedd ac Ysgol Glanadda, a'r cyfnod sylfaen ar gyfer Ysgol Babanod Coedmawr. Maent yn dangos ffigyrau cyfatebol ar gyfer Gwynedd a Chymru ar gyfer 2017. Serch hynny, nid yw'r cynigiwr wedi darparu dadansoddiad cryno o berfformiad yr ysgolion”.

5.12.2 Mewn ymateb i'r sylwad ynglŷn â'r diffyg dadansoddiad o berfformiad yr ysgolion, noder fod arfarniad o berfformiad ysgolion Garnedd, Babanod Coedmawr a Glanadda i'w weld ar dudalennau 20 a 21 yn y ddogfen ymgynghori, ac mae'r canfyddiadau wedi eu seilio'n bennaf ar adroddiadau Estyn diweddaraf yr ysgolion. Yn ogystal â hynny, ar dudalen 20, mae tabl sy'n nodi perfformiad y tair ysgol mewn perthynas â'r system genedlaethol ar gyfer categoreiddio ysgolion.

6. **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.**

6.1 Mae gan yr Adran Addysg rôl i hyrwyddo nodau llesiant y Ddeddf ymysg disgyblion y sir drwy ei weithgareddau a'i brosiectau. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r ddyletswydd mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y bydd yn gwella llesiant yn “Cynllun Gwynedd 2018-2023”.

6.2 Mae'r adran 3.1 uchod yn nodi'r cynnig arfaethedig ar gyfer ad-drefnu darpariaeth Addysg Gynradd yn Nalgylch Bangor. Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol a gofynion y deddf llesiant, deuir i'r casgliad fod y cyfeiriad hwnnw yn cydblethu a 7 nod llesiant y Ddeddf, ynghyd ag amcanion llesiant y Cyngor. Bydd y cyfeiriad hwn yn caniatáu i ni ymateb i a diwallu anghenion y plant heddiw, ac hefyd cryfhau eu llesiant i'r dyfodol. Bydd y model ad-drefnu arfaethedig yn sicrhau fod plant yr ardal yn cael eu haddysgu ar safle modern sy'n darparu amgylchedd ddysgu sy'n addas ar gyfer yr 21^{ain} ganrif.

7. **I Grynhoi**

7.1 Argymhellir felly rhyddhau rhybuddion statudol ar y cynnig i gau Ysgolion Glanadda a Babanod Coedmawr ar y 31 Awst 2020, a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol y Garnedd (yn ddarostyngedig ar ddewis rhieni); a chynyddu capasiti Ysgol y Garnedd i 420. Y bwriad yw y bydd yr ysgolion yn cau ar 31 Awst 2020 a bod adeilad newydd Ysgol y Garnedd yn agor 1 Medi 2020.

7.2 Mae'r argymhelliad yma yn dilyn ystyriaeth o ystod eang o opsiynau posib. Crynhowyd y cynigion yma i restr hir o opsiynau posib, a gwerthuswyd yr opsiynau yma'n llawn wrth gymharu prif fanteision ac anfanteision yn erbyn ffactorau penodol. Defnyddiwyd uchelgais y strategaeth

'Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd', ffactorau yn y Cod Trefniadaeth, gweledigaeth dalgylch Bangor a ffactorau perthnasol eraill.

Roedd y ffactorau yn cynnwys, ond ddim yn gyfyngedig i:

- Ansawdd yr Addysg
- Maint dosbarthiadau ac amrediad oedran o fewn dosbarthiadau
- Niferoedd disgyblion a llefydd gweigion
- Amgylchedd Dysgu – ansawdd ac addasrwydd adeiladu
- Arweinyddiaeth a staffio
- Y Gymuned
- Yr Iaith Gymraeg
- Ardrawiad Cydraddoldeb
- Adnoddau Ariannol
- Ffactorau Daearyddol

Mae'r gwerthusiad opsiynau llawn yma eisoes wedi ei gyflwyno i'r Cabinet am ystyriaeth ar 13 Mawrth, 2018 ac i'w weld yn **Atodiad 3**.

7.3 Fel rhan o'r gwerthusiad opsiynau yma, defnyddiwyd hefyd casgliadau **asesiadau effaith Cymunedol, leithyddol a Chydraddoldeb**. Mae'r asesiadau yma yn **atodiad 4**, a'r holl ddogfennaeth gefndirol y cynnig ar gael ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg. Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 cynhaliwyd asesiad ardrawiad cydraddoldeb ynglŷn â'r cynigion. Mae'r asesiadau yn nodi'r sefyllfa bresennol ac yn dangos fod polisiau a threfniadau mewn lle a fyddai'n sicrhau fod y cynnig yn ystyried ac yn cyd-fynd a hawliau cyfartal. Wedi pwysu a mesur y ffactorau perthnasol deuir i'r casgliad bod sicrwydd yr hyrwyddir cyfleoedd cyfartal yn gadarnhaol yn sgil y cynnig a bod mesurau mewn lle i sicrhau na fydd camwahaniaethu anghyfreithlon ac aflonyddu. Mae trefniadau mewn lle yn ogystal fydd yn monitro ac yn adolygu'r sefyllfa. Ystyried felly bod canfyddiadau'r asesiadau yn parhau yn gyfredol ac yn berthnasol i argymhelliad. *(Nodi'r bod cywirdeb wedi ei wneud i asesiad ardrawiad cymunedol yn nhabl 14: Defnydd cymunedol o gyfleusterau'r ysgol - gan fod gwall yn y wybodaeth wreiddiol a gyhoeddwyd.)*

7.4 Yn dilyn ystyried yr holl sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol, ystyrir fod y cynnig ymgynghorwyd arno dal i gynnig yr opsiwn orau ar gyfer dyfodol addysg yn nalgylch Bangor. Mae dadansoddiad o'r sylwadau a dderbyniwyd yn cael sylw yn adran 5 ac **atodiad 1** yr adroddiad yma, ac mae'r ymatebion ar gael yn llawn ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg

8 Camau Nesaf

8.1 Os bydd y Cabinet yn penderfynu cefnogi'r argymhellion a gyflwynir yn yr adroddiad hwn – bydd angen cyhoeddi rhybuddion statudol yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac arweiniad y Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013).

8.2 Byddai'r rhybuddion statudol yn cael eu cyhoeddi ar ddiwrnod ysgol a bydd cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod o pan gyhoeddir y rhybuddion. Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynnig.

- 8.3** Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet am benderfyniad terfynol. Rhaid cofio bod rhai sefyllfaoedd lle bydd penderfyniad terfynol y Cyngor yn gallu cael ei gyfeirio at y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013).
- 8.4** Yn ddarostyngedig ar benderfyniadau'r Cabinet, dyma gamau nesaf y broses gydag amserlen amlinellol;

Camau'r Daith	Amserlen Amlinellol
Adroddiad Cabinet yn dilyn ymgynghoriad statudol	3 Gorffennaf 2018
Cyhoeddi Rhybuddion Statudol a chyfle i ymgynghorai wrthwynebu	Medi 2018
Penderfyniad terfynol gan Gabinet y Cyngor (posib i'r cynnig gael ei atgyfeirio i Weinidog Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru ar ôl y penderfyniad yma)	Hydref / Tachwedd 2018
Cychwyn y broses o drosglwyddo i'r adeilad newydd	Mehefin 2020
Agor yr ysgol	1 Medi 2020

9 Argymhellion

Argymhellir felly:

- i. Cymeradwyo'r cynnig i gau Ysgolion Glanadda a Babanod Coedmawr ar y 31 Awst 2020, a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol y Garnedd (yn ddarostyngedig ar ddewis rhieni); a chynyddu capasiti Ysgol y Garnedd i 420.
- ii. Cymeradwyo cyhoeddi rhybuddion statudol ar y cynnig yn (i) uchod yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Thrafnidiaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

Barn yr Aelodau Lleol

Bydd unrhyw sylwadau gan yr Aelodau Lleol yn cael eu cyflwyno yn y cyfarfod.

Barn y Swyddogion Statudol

Y Swyddog Monitro

“Mae cynnwys yr adroddiad yma wedi bod yn destun cyngor cyfreithiol gan y Gwasanaeth Cyfreithiol. Dim sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb.”

Y Pennaeth Cyllid

“Rwy’n cefnogi’r penderfyniad a geisir ac yn annog aelodau a swyddogion perthnasol i barhau gyda’r prosiect ehangach i adolygu trefniadaeth ysgolion yn ddi-oed.”

Atodiadau

Atodiad 1	Dadansoddiad o ymatebion yr ymgynghoriad
Atodiad 2	Ymgynghoriad Plant a phobl ifanc
Atodiad 3	Gwerthusiad Opsiynau
Atodiad 4	Aseidiadau Effaith Ieithyddol, Cymunedol a Chydraddoldeb

Eitem 7

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	6 Tachwedd 2018
Aelod Cabinet:	Y Cynghorydd Ioan Thomas
Swyddog Cyswllt:	Llŷr Jones, Uwch Reolwr Economi a Chymuned
Rhif Ffôn Cyswllt:	Est 32219
Teitl yr Eitem:	Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio : Cynllun Adfywio Canol Dinas Bangor

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- I gefnogi'r bwriad o dargedu Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio ar gyfer datblygu a gweithredu prosiectau o fewn Cynllun Adfywio Canol Dinas Bangor
- Fod y Cyngor yn ymrwymo £250k o'i Gronfa Cydariannu a sefydlwyd i'w ddefnyddio fel arian cyfatebol ar gyfer rhaglenni ariannol allanol
- Awdurdodi'r Pennaeth Cyllid i arwyddo ceisiadau unigol ar gais yr Aelod Cabinet perthnasol yn amodol fod manylion llawn o'r cais wedi eu datblygu

2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

- Ar 22ain o Fai eleni, bu i'r Cabinet gymeradwyo Strategaeth Adfywio Ranbarthol Gogledd Cymru oedd wedi ei pharatoi fel rhan o Raglen Targedu Buddsoddiad (TRI) mewn Adfywio Llywodraeth Cymru. Nodwyd hefyd fod gwaith pellach i'w wneud er mwyn ystyried cyfloed posib o'r Rhaglen TRI a'r bwriad o gyflwyno adroddiad pellach i'r Cabinet yn amlinellu cynigion arfaethedig.

3. CYFLWYNIAD A CHYD-DESTUN

Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio

- Yn ystod mis Hydref 2017, cafodd Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio (TRI) ei lansio gan Lywodraeth Cymru. Dyma raglen sy'n olynu Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid (VVP), ac mae cyfanswm o hyd at £100 miliwn ar gael yn y gyllideb yn ystod cyfnod cychwynnol o dair blynedd ar gyfer 2018-2021.
- Mae'r Mae'r rhaglen hefyd yn amlinellu dyraniad tybiannol rhanbarthol ar gyfer y cyfnod 2018-21. Yn unol ar ansawdd y prosiectau rhagwelir hyd at £22m o'r gyllideb cyfalaf i Ogledd Cymru.
- Gofyniad y Rhaglen hon yw bod trefniadau cadarn ar waith o ran partneriaeth a llywodraethu rhanbarthol o'r dechrau er mwyn cytuno ar gynllun adfywio cyffredinol, blaenoriaethu cynigion buddsoddi a darparu sicrwydd ynghylch y broses benderfynu.

- 3.4 Mae'r Rhaglen TRI hefyd yn nodi'r angen am Gynllun Rhanbarthol ar gyfer Adfywio yn cynnwys fframwaith strategol a darparu cyd-destun ar gyfer cynigion. Nodir hefyd fod angen cyflwyno a chymeradwyo'r Cynllun Rhanbarthol cyn bydd Llywodraeth Cymru yn derbyn ceisiadau am fuddsoddiad.

Strategaeth Adfywio Ranbarthol Gogledd Cymru

- 3.5 Yn unol â chanllawiau Rhaglen TRI bu Grŵp Swyddogion Adfywio Gogledd Cymru a Grŵp Rheoli Rhaglen Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru gydweithio i lunio Strategaeth Adfywio ar gyfer Gogledd Cymru. Cafodd y Strategaeth hon ei chefnogi gan y Cabinet ar 22ain o Fai, ac sydd hefyd wedi ei chymeradwyo gan holl Gynghorau eraill y Gogledd.
- 3.6 Er mwyn adnabod ardaloedd o angen, mae'r Strategaeth yn cyfeirio'n bennaf at ddata Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru. Mae hefyd yn defnyddio methodoleg dadansoddi clwstwr er mwyn adnabod yr ardaloedd (trefi) hynny gyda chanran uchaf o'r boblogaeth sydd o fewn 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.
- 3.7 O safbwynt blaenoriaethau rhaglen TRI dros y cyfnod 2018-21, mae'r Strategaeth yn argymhell y blaenoriaethu prosiectau adfywio canol tref y 4 anheddle ar frig y rhestr, sef Rhyl, Wrecsam, Bangor a Bae Colwyn.
- 3.8 Yn ogystal, mae'r Strategaeth hefyd yn adnabod prosiectau blaenoriaeth ar sail Themâu penodol
- Thema Tai (adnewyddu adeiladau gwag) - Mynd i'r afael ag anghenion o ran tai ac adfywio gan gynnwys y sector rhentu preifat
 - Thema Tai (ardaloedd adnewyddu) – gan ystyried parhad o'r rhaglenni Adnewyddu Tai
 - Adeiladau Pwysig – cefnogaeth ar gyfer prosiectau i ail-ddatblygu neu aildefnyddio adeiladau pwysig y tu allan i'r pedair tref o flaenoriaeth ar gyfer anghenion adfywio.
- 3.9 Fel rhan o'r trafodaethau rhanbarthol, mae dyraniadau ariannol tybiannol sy'n seiliedig ar y gyllideb TRI bresennol wedi eu crybwyll ar gyfer gweithredu agweddau o'r Strategaeth ranbarthol :

	Gweithgaredd / Blaenoriaeth	Dyraniad tybiannol	Cyfanswm
1.	Adfywio Canol Trefi		£11.25m
	<i>Rhyl</i>	£4m	
	<i>Wrecsam</i>	£2m	
	<i>Bangor</i>	£3m	
	<i>Bae Colwyn</i>	2.25m	
2.	Tai : Adnewyddu Adeiladau Gwag / Ardaloedd Adnewyddu		£9.2m
	<i>Gwynedd</i>	£1.5m	
	<i>Ynys Môn</i>	£1.8m	
	<i>Sir Dinbych</i>	£1.5m	
	<i>Sir Flint</i>	£0.9m	
	<i>Sir Conwy</i>	£1.5m	
<i>Sir Wrecsam</i>	£2.0m		
3.	Adeiladau Allweddol		2.5m
	Manylion i'w datblygu	£2.5m	

- 3.10 Dylid pwysleisio mai dyraniad ariannol tybiannol yn unig ydynt, a byddai unrhyw ymrwymiad ariannol yn ddibynnol ar gyflwyno Cynlluniau Prosiect fyddai yn cwrdd â gofynion Rhaglen TRI. Dylid nodi hefyd fod cynllun gweithredu o fewn y Strategaeth Ranbarthol drafft yn cynnwys buddsoddiad posib o £29m o'r Gronfa TRI gan amlygu'r angen pellach am fuddsoddiad yn y rhanbarth, a'r uchelgais i ddenu buddsoddiad pellach i Ogledd Cymru.
- 3.11 Nodir felly fod y dyraniad rhanbarthol tybiannol Rhaglen TRI yng Ngwynedd yn cynnwys tua £3m ar gyfer Cynllun Adfywio Canol Dinas Bangor, ynghyd a tua £1.5m ar gyfer thema tai (adnewyddu adeiladau gwag) fyddai yn cyfrannu at flaenoriaethau'r Strategaeth Ranbarthol.

Cynllun Adfywio Canol Dinas Bangor

- 3.12 Yn ystod 2016, sefydlwyd Partneriaeth Strategol Dinas Bangor gan ddwyn ynghyd ystod o bartneriaid yn awyddus i gyd-weithio i ddatblygu a gweithredu strategaeth newydd ar gyfer y ddinas. Mae'r bartneriaeth yn cynnwys cynrychiolaeth o nifer o wahanol sefydliadau gan gynnwys Cyngor Gwynedd, Cyngor Dinas Bangor, Llywodraeth Cymru, Prifysgol Bangor, Pontio, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, Partneriaeth Tai, Grŵp Llandrillo Menai, ac Ardal Gwella Busnes y ddinas.
- 3.13 Yn dilyn sefydlu'r Bartneriaeth, lluniwyd Strategaeth Adfywio ar gyfer y Ddinas, ac yn ystod yr Haf eleni bu i'r Bartneriaeth adolygu ei raglen waith a chadarnhau blaenoriaethau. Tra bod gwaith pellach eto i'w wneud, rhagwelir fod rhai o flaenoriaethau'r Bartneriaeth yn cyfrannu at amcanion a chanllawiau'r Rhaglen TRI, gan gynnwys
- i) Cynllun Buddsoddi ac Adfer Eiddo Gwag ar y Stryd Fawr : yn cynnig pecyn cymorth (benthyciadau a grant) yn targedu adeiladau gwag o fewn ardal fasnachol y ddinas
 - ii) Cynllun Mynediad a Chysylltiadau Trefol : yn cynnwys cynigion ar gyfer datblygu cysylltiadau strategol rhwng lleoliadau allweddol yng nghanol y ddinas. Cyfleodd ar gyfer ymgorffori'r gwaith gyda safleoedd datblygu gan gynnwys buddsoddiadau posib y Brifysgol drwy'r Fargen Dwf arfaethedig.
 - iii) Hwb Iechyd Bangor : Cynllun ar y cyd rhwng y Gwasanaeth Iechyd a Chartrefi Cymunedol Gwynedd yn edrych ar gydleoli gwasanaethau iechyd y gymuned yng nghanol y Ddinas ynghyd ag unedau preswyl newydd.
 - iv) Gwella ac ymestyn darpariaethau cymunedol neu gymdeithasol : Mae cysyniadau cychwynnol wedi eu hadnabod megis Canolfan Deulu Integredig Maesgeirchen yn darparu cefnogaeth mewn ardal ddifreintiedig. Cysyniad arall yw Canolfan Digartrefedd fyddai yn cynnig darpariaeth amlasiantaethol i'r digartref.
 - v) Cynllun Eiddo (Tai) Gwag : yn cynnig pecyn o fesurau er mwyn dod ag adeiladau gwag yn ôl i ddefnydd preswyl.
- 3.14 Mae'r rhestr yma yn cynnwys ystod eang o brosiectau posib, a nifer ohonynt angen gwaith rhagbaratoi pellach i'w datblygu yn gynigion manwl.

4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

- 4.1 Mae'r Strategaeth Adfywio Ranbarthol wedi adnabod dinas Bangor fel blaenoriaeth, ac o ganlyniad, mae cyfle i dargedu adnoddau Rhaglen TRI ar gyfer gweithredu prosiectau adfywio cymwys.
- 4.2 Yn wahanol i raglenni adfywio blaenorol, gwahoddir ceisiadau am arian Rhaglen TRI ar sail prosiectau unigol yn hytrach na ddyweder un cais yn cynnwys pecyn o brosiectau gyda'i gilydd.
- 4.3 Bydd ceisiadau am arian Rhaglen TRI yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru a fydd yn cael eu hasesu yn unol â gofynion a chanllawiau'r rhaglen. Yn ogystal, bydd cynigion hefyd yn cael eu hystyried gan Grŵp Swyddogion Adfywio Gogledd Cymru sydd yn gweithredu ar ran Grŵp Gweithredol Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru. Mae'n ofynnol i bob cais gael ei llofnodi gan y Swyddog Adran 151, gan gadarnhau fod y manylion yn gywir a bod y cais wedi ei gefnogi gan y bartneriaeth ranbarthol.

Ystyriaethau Ariannol

- 4.4 Cyllideb cyfalaf sydd yn cael ei darparu drwy'r Rhaglen TRI ac uchafswm cyfradd ymyrraeth Llywodraeth Cymru fesul prosiect yw 70%. Golyga hynny fod angen sicrhau o leiaf 30% o arian cyfatebol.
- 4.5 Rhagwelir y byddai manylion prosiectau unigol yn cael eu datblygu gan wahanol sefydliadau yn gweithredu rôl fel corff arweiniol. Er bod cyd-weithio yn nodwedd amlwg ym mhob un o'r prosiectau, y corff arweiniol fyddai yn gyfrifol am ddatblygu'r manylion y prosiect gan gynnwys y pecyn ariannu arfaethedig a sicrhau'r arian cyfatebol.
- 4.6 O safbwynt prosiectau a nodir yn 3.13, argymhellir mai Cyngor Gwynedd fyddai yn gyfrifol am arwain a gweithredu'r prosiectau canlynol :
 - a) Cynllun Buddsoddi ac Adfer Eiddo Gwag (masnachol) ar y Stryd Fawr
 - 4.6.1 Bwriedir defnyddio adnoddau Rhaglen TRI gan ymgorffori cymorth grant i'r pecyn benthyciad canol tref sydd eisoes yn weithredol yn ninas Bangor. Cyfanswm cost y prosiect fyddai £2.1m yn cynnwys £1.2m TRI; £250k o'r Gronfa Fenthyciadau Canol Tref; a £660k o fuddsoddiad preifat.
 - 4.6.2 Mae manylion y Cynllun wedi eu paratoi, a bwriedir i'r cynllun fod yn weithredol o 1af o Ebrill 2019.
 - b) Cynllun Mynediad a Chysylltiadau Trefol
 - 4.6.3 Mae Grŵp Prosiect aml asiantaeth wedi ei sefydlu yn ddiweddar gyda'r bwriad o ddatblygu manylion y cynllun. Amcangyfrif cost y prosiect yw oddeutu £2.2m yn targedu £750k TRI, ac ymrwymiad o £250k gan Gyngor Gwynedd. Rhagwelir y bydd cyfle i ymgorffori buddsoddiad sefydliadau lleol i'r cynllun a fydd yn destun gwaith rhagbaratoi manwl.

4.6.4 Gofynnir am ymrwymiad o £250k o'r Gronfa Cydariannu'r Cyngor tuag at gostau'r prosiect arfaethedig. Byddai hyn hefyd yn dangos cefnogaeth ac ymrwymiad y Cyngor i'r fenter ehangach.

c) Cynllun Eiddo (Tai) Gwag

4.6.5 Mae'r Cynllun yn cynnig pecyn o fesurau er mwyn dod ag adeiladau gwag yn ôl i ddefnydd preswyl sydd yn cael ei reoli drwy'r Gwasanaeth Tai, Adran Oedolion, Iechyd a Lles. Mae'r pecyn yn cynnwys darpariaeth ar unigolion sydd yn prynu uned breswyl am y tro cyntaf, ac yn cynnwys cefnogaeth i landlordiaid i adnewyddu adeiladau gwag ar gyfer defnydd preswyl. Mewn rhai amgylchiadau, byddai'r pecyn hefyd yn galluogi'r Cyngor i brynu ac adfer eiddo gwag yn uniongyrchol

4.6.6 Mae'r prosiect yn ffurfio rhan o themâu a blaenoriaeth ranbarthol ar gyfer adfer tai gwag. Yn yr achos yma, mae Cyngor Môn yn gweithredu fel corff arweiniol drwy gyflwyno cais i Lywodraeth Cymru, a chytundeb rhwng Cyngorau Gwynedd a Môn i'w gwblhau fel rhan o'r trefniant llywodraethu.

Allbynnau

4.7 Pe llwyddir i weithredu'r prosiectau blaenoriaeth sydd wedi eu hadnabod drwy Bartneriaeth Bangor, byddai'n golygu buddsoddiad sylweddol i ddinas Bangor. Serch hynny, nid yw manylion pob un o'r prosiectau wedi eu datblygu yn llawn eto, ac y byddai yn gynamserol i gynnig amcangyfrif o'r holl allbynnau.

4.8 Fodd bynnag, ar gyfer y prosiectau hynny fyddai yn cael ei arwain gan y Cyngor, rhagwelir y byddai'r gweithgareddau hyn yn cyfrannu at yr allbynnau canlynol (sydd yn seiliedig ar allbynnau Rhaglen TRI)

Allbynnau	Nifer
Swyddi gros a grëwyd	21
Nifer y swyddi y darparwyd ar eu cyfer	48
Nifer y mentrau y darparwyd ar eu cyfer	15
Nifer safleoedd (dibreswyl) a grëwyd neu a adnewyddwyd	17
Buddsoddiad ychwanegol wedi ei ddenu	2.5m
Nifer yr aelwydydd a gafodd gymorth tuag at sicrhau gwelliannau o ran perfformiad ynni eu cartrefi	35
Cartrefi gwag yr ail-ddechreuwyd eu defnyddio	60
Nifer o unedau preswyl newydd wedi eu creu	23
Nifer y busnesau bach a chanolig yng Nghymru sy'n llwyddo i ennill contractau/is-gontractau	78

4.9 Bydd trefniadau ar gyfer monitro allbynnau yn cael eu hymgorffori i bob prosiect unigol. Bydd y Cyngor yn cyd-lynu Cynllun Adfywio Canol Dinas Bangor ac yn cyflwyno adroddiadau monitro rheolaidd i Lywodraeth Cymru.

5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

- 5.1 Yn amodol o dderbyn cefnogaeth y Cabinet, bwriedir cyflwyno ceisiadau ariannol i Lywodraeth Cymru er mwyn ymgeisio am adnoddau o'r Rhaglen TRI yn ystod y cyfnod 2018-21.
- 5.2 Bwriedir cyflwyno cais Cynllun Buddsoddi ac Adfer Eiddo Gwag (masnachol) ar y Stryd Fawr yn syth, gan roi trefniadau priodol mewn lle er mwyn i'r cynllun fod yn weithredol o 1af Ebrill 2019.
- 5.3 Bwriedir gwneud gwaith pellach o ddatblygu manylion Cynllun Mynediad a Chysylltiadau Trefol, drwy gyd-weithio gydag aelodau o Bartneriaeth Bangor. Bwriedir cyflwyno cais manwl yn fuan yn ystod cyfnod 2019/20.

6. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

6.1 Barn y Swyddogion Statudol:

i. Y Swyddog Monitro

Fe nodir yn yr adroddiad fod yr argymhellion am ryddhau adnoddau yn adeiladu ar benderfyniad y Cabinet ynglŷn â'r Strategaeth ym Mis Mai 2018. Mae'r adroddiad yn cloriannu'r seiliau am yr argymhelliad mewn modd priodol.

ii. Y Pennaeth Cyllid

Y Cynllun Buddsoddi ac Adfer Eiddo Gwag ar y Stryd Fawr yw'r cynllun cyntaf i'w gyflwyno fel rhan o becyn o gynlluniau i Adfywio Canol Dinas Bangor. Gallaf gadarnhau fy mod yn fodlon gyda phriodoldeb y drefn ariannu ar gyfer y cynllun cyntaf hwn, gyda ffynonellau ariannu wedi cael eu hadnabod. Rwyf hefyd yn glir, o drafodaethau gyda swyddogion o'r Adran Economi a Chymuned, fod aeddfedrwydd y cynlluniau dilynol yn y pecyn (sydd wedi cael eu hamlinellu yn rhan 3.13 o'r adroddiad) yn amrywio ar hyn o bryd.

Gallaf gadarnhau fod arian digonol yn y Gronfa Gydariannu i ymrwymo £250,000 fel arian cyfatebol ar gyfer Cynllun Adfywio Canol Dinas Bangor. Petai'r Cabinet yn cytuno gwneud hyn, bydd £250,000 ar ôl yn y Gronfa.

Rwyf yn gyfarwydd gyda ffurflen gais Llywodraeth Cymru ar gyfer y grantiau hyn, a gallaf gadarnhau mai awdurdodiad y Swyddog Cyllid Statudol yn unig y gofynnir amdano. Felly, os yw'r Cabinet yn fodlon, byddai'n briodol i mi arwyddo ffurflenni cais ar ran y Cyngor fel rhan o'r Cynllun hwn, ond dim ond pan fyddaf wedi derbyn sicrwydd gadarn a thystiolaeth gan y swyddogion perthnasol i arddangos fod yr holl wybodaeth yn y ceisiadau hyn yn gywir, ac fod y Bartneriaeth Rhanbarthol wedi cefnogi'r cynlluniau unigol.

6.2 Barn yr Aelod Lleol

Dim yn fater lleol

6.3 Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad

Dim i'w adrodd